

ECO'R WYDDFA

Rhif 222

EBRILL 1996

Pris 30c

PENCAMPWR SELSIG GOGLEDD CYMRU

Roedd rhif 13 yn lwcus i Wavell Roberts o Lanrug, sy'n hysbysebu'n rheolaidd yn yr Eco fel 'Pen Cigydd y Fro'. Bellach, am y bumed flwyddyn yn olynol, mae ganddo'r hawl i'w alw ei hun yn 'Ben Cigydd Gogledd Cymru'.

Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol Cyngor Gwerthwyr Cig Gogledd Cymru yn y 'Colwyn Bay Hotel' (yr hen 70°) ar y trydydd ar ddeg o Fawrth. Mae Wavell yn cystadlu ynddi bellach ers pum mlynedd ac wedi ennill gwobr bob tro. Eleni, fe'i dyfarnwyd yn *Supreme Champion* wedi iddo ennill y wobwr gyntaf yn y dosbarth selsig porc traddodiadol. Dyma'r tro cyntaf iddo ennill yn y dosbarth hwn, er iddo ennill dosbarthiadau'r selsig

braster isel a selsig arbennig o'r blaen.

Roedd gofyn iddo arddangos pwys o selsig wedi eu coginio a phwys o rai wedi eu plethu yn barod i'w gwerthu. Daeth nifer helaeth o gystadleuwyr i'r bencampwriaeth, gan gynnwys cigyddion o Borthmadog, Wrecsam, Llandudno, Bae Colwyn, Rhyl a Rhuthun. Nid dyma'r tro cyntaf i Wavell brofi fod selsig a phasteiod gorau



Wavell a'r selsig llwyddiannus.

gogledd Cymru i'w cael yn ei siop yn Lanrug — bellach, mae cymaint o dystysgrifau a thlysau yn hongian yn ei siop nag sydd o gig! Ac, wrth gwrs, ef oedd Pencampwr Selsig Cymru y llynedd, ar ôl dod yn fuddugol yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanellwedd. Bydd yn awr yn cynrychioli gogledd Cymru ym

mhencampwriaeth Prydain yn Llundain yn ystod Chwefror 1997.

Does ryfedd felly fod cwsmeriaid y fro yn heidio i'w siop. Yn wir, mae ganddo rai cwsmeriaid ffyddlon iawn o'r ochr draw i Glawdd Offa: prawf sicr fod blasusfwd ar gael yn y rhan hon o fro'r Eco.

PENCAMPWRIAETH Y SGOTWRS

Mae gan Gymdeithas Bysgota Seiont Gwryfai a Llyfni ddau reswm dros ddathlu y dyddiau hyn. Maent wedi llwyddo i ddenu cystadleuaeth bwysig i Lanberis ac wedi sicrhau nawdd ariannol o Gronfa'r Loteri.

Y Gystadleuaeth

Bydd cystadleuaeth bysgota o bwys yn cael ei chynnal ar Lyn Padarn tua diwedd yr haf eleni wedi i'r Gymdeithas ddenu Cystadleuaeth Ryngwladol y Methedig i Lanberis ar Fedi 23. Y gobaith yw y gwelir rhagor o gystadleuthau pwysig yma os bydd y fenter hon yn llwyddiant.

Gwahoddwyd swyddogion pwyllgor y gymdeithas sy'n trefnu'r cystadleuthau rhyngwladol i weld y cyfleusterau y gall Cymdeithas leol eu cynnig, ac yr oeddynt wedi eu plesio yn arw. Gymaint felly, nes iddynt benderfynu dod â Chystadleuaeth y Methedig yma eleni! Yr oedd hyn yn newydd gwell na'r disgwyl i'r Gymdeithas bysgota leol oedd wedi gobeithio cael croesawu un o'r treialon rhyngwladol ymhen blwyddyn neu ddwy.

Caiff y Gymdeithas gyhoeddus-rydd gwerthfawr i'w physgod-feydd yn sgîl cynnal y gystadleuaeth. Ond y gobaith mwyaf yw y bydd y fenter yn llwyddiannus a'r trefniadau yn

hwylus fel y gellir dangos i'r pwyllgor rhyngwladol bod y Gymdeithas yn gallu cynnal cystadleuthau pwysig ar Lyn Padarn. Bydd rhyw ugain o bysgotwyr yn dod yma ym mis Medi, ond os daw'r cyfle i groesawu un o'r treialon rhyngwladol mawr, yna bydd degau o bysgotwyr yn dod yma i gymryd rhan. Byddai hynny yn newydd da i'r Gymdeithas ac i fusnesau lleol, gan y byddai angen lletya'r ymwelwyr.

Cychod newydd

Mae'r Gymdeithas wedi cael gwybod hefyd bod y cais a wnaeth am gymorth o gronfa'r Loteri Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus. Cafwyd arian da, a bydd yn cael ei ddefnyddio i brynu hawliau pysgota ar Lyn Nantlle, ac i brynu pymtheg o gychod a pheiriannau. Bwriedir cadw pedwar cwch yma ar Lyn Padarn, tra bydd pedwar arall ar Lyn Cwellyn a phedwar ar Lyn Nantlle. Bydd aelodau'r Gymdeithas yn talu swm penodol a fydd yn rhoi'r hawl iddynt

DEINIOLEN BIAU'R DARIAN



Arwel, Jennie, Urien, Alaw a Gethin gyda'r darian a enillodd Adran Deiniolen yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Deiniolen oedd yr adran fuddugol yn yr oedran 12 - 15 oed.

ddefnyddio cwch ar unrhyw un o'r tri llyn unrhyw amser y bydd cwch ar gael. Mae'r cychod newydd yn hwyluso'r ffordd i

lawer mwy o aelodau'r Gymdeithas gael pysgota, a deallwn y bydd y cychod yn addas ar gyfer y methodig hefyd.

CYNGERDD Y PASG

Cynhelir Cyngerdd dan nawdd Pwyllgor Apêl Llanberis Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, nos Sul y Pasg, Ebrill 7fed Bydd un o gorau mwyaf llwyddiannus yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyl Gerdd Dant yn canu yn y cyngerdd. Mae Côr Godre'r Garth, o ardal Pontypridd, ar

daith fer yn y gogledd, a bydd y cyngerdd yn Llanberis yn dilyn cyngerdd ganddynt ym Mhen Llŷn. Roedd amryw o aelodau'r Côr yn ymwneud â threfnu'r Wyl Gerdd Dant ym Mhenybont-ar-Ogwr y llynedd. Dechreuir y Cyngerdd am 8 o'r gloch, ac mae tocynnau ar gael am £2.50 (neu £1.00 i blant).

ECO'R WYDDFA

Rhif 222
EBRILL 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 2

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN, EBRILL 22

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	MAI 2	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 30	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 27	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 5	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (850556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Pris yr Eco'n Codi

Mae pris yr Eco'n codi y
mis yma o 25c i 30c.
Rydym wedi llwyddo i
gadw'r pris yn 25c ers 6
mlynedd ond bellach mae'r
rhaid ei godi i gyfarfod â'r
cynnydd yng nghostau
cynhyrchu'r papur.

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch i'r holl ddarllenwyr
papurau bro fu'n help mawr inni wrth
baratoi'r gyfres deledu ddiweddar o'r
Alban, 'Y Ffordd i John O'Groats'.
Cafodd y gyfres, fel yr un o lwerddon
y llynedd, dderbyniad da iawn, ac
mae llawer o'r clod i'r bobl a'n
rhoddodd mewn cysylltiad â
chymaint o siaradwyr Cymraeg
diddorol yn y ddwy wlad.

Eleni bydd Lyn Ebenezzer a'r tîm yn
mynd ar daith arall, i Lydaw y tro
hwn. Buaswn yn ddiolchgar dros ben
o glywed am unrhyw siaradwyr
Cymraeg (yn Gymry neu Lydawyr)
sy'n byw yn y wlad honno. A fuasai
unrhyw un all ein helpu mor garedig
ag ysgrifennu i'r cyfeiriad isod, neu'n
ffonio ni ar (01286) 677595.

Yn gywir,

IOAN ROBERTS (Cynhyrchydd)
Teledu Seiont
Gronant, Caernarfon

RHEDEG DROS GWYNEDD



Steffan Evans a Susan Thomas, aelodau o dim traws-gwlad Gwynedd yn
y gystadleuaeth genedlaethol yng Nghasnewydd.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri**

am brisiau rhesymol

ELWYN

PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Sadwrn

10.00 — 4.30

Ffôn: (01286)

870922

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.



Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, Llanrug, gyda Dafydd Wigley, y gŵr gwadd yng nghinio Gŵyl Ddewi, Cangen Llanrug o Blaid Cymru.

Clwb Eryri

Yn y Cinio Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn addas iawn ar Fawrth 1, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, estynnodd y llywydd, Wyre Thomas, groeso cynnes i'r aelodau a'u gwagedd. Diolchodd i bawb a helpodd i wneud ei dymor fel arweinydd yn un llwyddiannus, a dymunodd well tro ar fyd i'r aelodau hynny oedd heb fod yn eu llawn iechyd, a chyfeiriodd yn benodol at Rol Williams ac Ieuan Ellis Jones a'i wraig, Morfudd — oeddynt ill tri, yn sicr, yn bresennol yn yr ysbryd. Cyfeiriwyd hefyd at lwyddiant yr is-lywydd, J. Norman Davies, yn ennill ei bedwaredd cadair eisteddfodol, y tro hwn yn Llanllyfni. Yn bennaf oll, llongyfarchwyd John Roberts Williams, sylwebydd craff a dadansoddwr diduedd camp a rhemp y drefn, oedd ar fin darlledu ei filled sgwrs 'dros ei sbectol' ar y

Sadwrn canlynol. Dathlwyd ei gamp arbennig mewn mawlgan ddyfeisgar gan fardd y Clwb, R. Gwynn Davies.

Yna cyflwynwyd y prif-westeion, sef y Dr Meredydd Evans (Mered y cyfryngau a'r coleg) a'i wraig, Phyllis. Yn unol â'u haddewid, canwyd amrywiaeth o alawon gwerin ganddynt, a bu raid i'r gynulleidfa hithau, yn ei thro, gyfrannu yn fwy brwdfrydig na deheuig at y wledd gerddorol. Wedi'r hwyl, diolchwyd i'r ddau ac i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson, a hynny'n ddoniol a phwrpasol, gan Norman Davies.

Wrth gloi'r gweithgareddau, cyhoeddodd y llywydd bod cyfarfod olaf y tymor, sef y wibdaith, ar ddydd Sadwrn, 22 Mehefin. Apeliodd am gefnogaeth deilwng gan fod y trefnydd, Stanley Owen, wedi darparu'n ddyfeisgar a sensitif ar gyfer chwaeth a diddordebau amrywiol yr aelodaeth!

IOLO HUWS-ROBERTS

Cyfarfod Blynyddol Band Llanrug

NOS LUN, 15 EBRILL
am 7 o'r gloch

yn Ystafell y Band, Llanrug

Taer erfynnir ar i aelodau'r Band, rhieni yr aelodau ifanc, cyn-aelodau, a chefnogwyr a chyfeillion y Band i fod yn bresennol.

DOWCH I GEFNOGI
BAND HYNAF GOGLEDD CYMRU!

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Dyweddiad: Llongyfarchiadau i Eirian Roberts, Seaview ar ei dyweddiad â Kevin Edwards, Bangor.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu dros y mis nesaf:

7: 10.00 Cyfarfod y Pasg
14: 2.00 Mr Richard Jones
21: 10.00 Parch W.R. Williams
28: 2.00 Parch W.R. Williams
Mai 5: dim oedfa

Bryn Eglwys: Mewn darlith ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yn y mis diwethaf, roedd clod mawr i gyfraniad Mr William Preese, Bryn Eglwys (a fu farw 1913) at ddatblygiad y telegraff a'r 'wireless' yn y byd. Hefyd, roedd sôn am yr Eidalwr ifanc, Mr Marconi - enw sy'n fyw ar lafar gwlad fel enw lleoliad yr

hen orsaf radio ar ochr uchaf y lôn rhwng Y Groeslon a Cheunant.

Tynfa Fisol: Enillwyr mis Mawrth:

1. 2: £40 Peter ac Olga Evisen, Cae Hapsyn, Rhos-bach;
2. 8: £25 Michael a Frances Wyn Williams, Bodwyn;
3. 71: £15 Clive James, Hafan;
4. 5: £5 Geoff Drake, Castellmai.
Mae Pwyllgor y Cae Chwarae yn dra diolchgar am eich cefnogaeth barhaus.

Cae Chwarae: Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar y cae am 7.30 yr hwyr ar 17 Ebrill er mwyn trafod manylion y cynllun i ffensio llecyn chwarae y plant lleiaf a gwella'r cyfleusterau. Bydd y dynfa fisol wedyn yn Nhafarn Bryngwna.

DRAENOG



STORI BERT yw'r un a glywais am y pysgotwr a'r 'un y methodd ei ddal'. Ond nid pysgodyn a gollwyd y tro hwn ... ond goriadau'r car. A dyna beth oedd **DRAMA:** Y goriad ar goll, dim goriad sbâr, a dim cofnod chwaith o rif y goriad. Ac er pysgota mewn garejus trwy Fôn

ac Arfon, ni chaed goriad. Bu raid datgymalu'r clo ar yr olwyn ddreifio i ddod o hyd i'r rhif y tu mewn iddo. Ond roedd y rhif wedi treulio, a methwyd â'i ddarllen. Aeth adre'n benisel gan ddychmygu gorfod cael gwared â'r car. Ond ymhen rhai oriau, sylwodd ar blanhigyn go anarferol yn blaguro yn y pot blodau wrth y drws ffrynt - planhigyn sgleiniog, main, metel. Deallaf mai enw Lladin y planhigyn yw 'goriadus carbertus parialis'.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

CHWILOTA C'NEBRWNG MAWR



Diddorol oedd darllen yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco*, atgofion Idris Thomas am gynhebrwng anghyffredin ei daid. Yn y rhifyn cyfredol o *Llafar Gwlad* ceir hanes cynhebrwng arall, sef un John Jones, Talysarn, ym mynwent Llanllyfni — un o'r cynhebryngau mwyaf a welodd ardal y chwareli erioed mae'n debyg. Ond fe gafwyd nifer o 'gynhebryngau mawr' yn yr ardal hon hefyd, ac o bosib mai'r un mwyaf oedd c'nebrwng Griffith Ellis, goruchwyliwr Chwarel Dinorwig. Bu farw ddechrau Mawrth 1860 a chynhaliwyd yr angladd ar ddydd Llun, y deuddegfed o'r mis hwnnw.

Yn ôl adroddiadau o'r cyfnod, roedd hwn yn angladd wedi 'ei gynllunio'. Mae'n debyg fod angen gwneud hynny gan fod cynifer o bobl am ddod i dalu gwrogaeth ar siwrnai olaf yr hen oruchwyliwr. Anodd penderfynu pa ffordd yn union y deuai'r cynhebrwng o Ddinorwig i lawr i Lanberis cyn ymlwybro 'mlaen i'r fynwent yn y Nant. Mae un o'r adroddiadau yn sôn am ffordd Pen-yr-esgair, ac mai'r 'dieithriaid' oedd wedi eu gosod i sefyll ar hyd-ddi. Ble yn hollol yr oedd ffordd Pen-yr-esgair, neu ble mae hi heddiw? A phwy oedd y 'dieithriaid'?

O'r gwaith (sef y chwarel) i lawr yr Allt Wen roedd 'dosbarth Griffith Ellis'. Unwaith eto, anodd penderfynu a'i teulu'r ymadawedig oedd y 'dosbarth', yntau a'i cyfeiriad sydd yma at rhyw ddosbarth arall — dosbarth Ysgol Sul efallai? Mae 'na gyfeiriad at 'ddosbarth' arall hefyd, yn 'sefyll ar hyd y ffordd sy'n croesi gwaelod y nant.' Ble'n union y cyfeirir ato?

Ar waelod yr Allt Wen yr oedd y cerbydau — yr elor-gerbyd a deg ar hugain o gerbydau eraill gan gynnwys hefyd nifer fawr o wŷr meirch. Roedd yr holl orymdaith dros filltir o hyd, ac yn cymryd pum munud ar hugain i fynd heibio. Yn y drefn hon y symudodd y cyfan y dair milltir o ffordd i fynwent Nant Peris.

Dyna daith o tua awr a chwarter o waelod yr Allt Wen i'r fynwent!


Amcangyfrifod fod pedair mil o bobl yn bresennol yn yr angladd, a bod lluoedd eraill yn gwylio'r cynhebrwng o ben y brynau a'r creigiau o bobtu'r ffordd. Yn wir, 'oni bai fod y tywydd mor anffafriol, diau y daethai cannoedd yn ychwaneg'.

CRAIG YR UNDEB

Yn dilyn y cais diweddar am lun o gyfarfod ar Graig yr Undeb, daeth Mr Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis, i gysylltiad â mi. Mae tri o'r lluniau a welir ar y dudalen hon yn debyg i amryw eraill o luniau a ymddangosodd ar dudalennau'r *Eco* dros y blynnyddoedd: grwpiau o chwarelwyr un ai wrth eu

gwaith neu fel criw 'ponc'. Er hynny, mae rhai o'r lluniau dros ddeng mlynedd a thrigain oed, a'r ansawdd yn parhau'n glir.

Y pedwerydd llun yw'r un pwysig. Tybed ydi hwn yn llun o gyfarfod ar Graig yr Undeb? Dyw'r llun ar y dudalen hon ddim yn eglur iawn, a hynny oherwydd fod y gwreiddiol yn hen ac yn felyn. Mae'n anodd iawn i chwi ddarllenwyr ddod i benderfyniad dim ond o astudio'r atgynhyrchiad hwn. Bu astudio manwl ar y llun ers i mi gael ei fenthg. Dywed Mr Lewis iddo ei astudio â chwyddwydr, ac na allai weld unrhyw un o'r cannoedd sydd yn y llun heb het neu gap am ei ben! Yn ddiddorol hefyd, mae merched yn y llun;



Cyfarfod Chwarelwyr ar Graig yr Undeb?

Ydi hwn yn llun hanesyddol a phwysig? Gweler y nodiadau a'r awgrymiadau yn yr erthygl. Gwyddom i sicrwydd enwau dau o'r bobl yn y llun, sef William Roberts, Bryn Sardis, Dinorwig (taid Goronwy Lewis) a'i frawd Arthur. Mae'r llun gwreiddiol wedi ei farcio i ddangos eu lleoliad, ond nid yw'n bosibl eu dangos yma.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION




Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES

hwythau hefyd yn gwisgo hetiau neu foneti. A fyddai merched yn ymuno â'r dynion mewn cyfarfodydd chwarelwyr?

Gall y camera wynebu: (1) Craig yr Undeb, gyda'r Elidir yn y cefndir; neu gall y camera fod yn (2) ardal Pont y Bala, gyda Llyn Padarn yn y cefndir. Gan nad yw'r llun gwreiddiol yn eglur yn yr atgynhyrchiad, labelwyd y diagram gyda phump o gliwiau sy'n helpu i benderfynu ar y lleoliad.

1. Craig yr Undeb:

- (a) llethrau'r Fachwen;
- (b) llethrau'r Elidir a'r chwarel ei hun. Yn y llun gwreiddiol gallai'r llinell hon fod yn staen. Mae'n anodd penderfynu gan fod y llun wedi melynau cymaint;
- (c) siâp copa Craig yr Undeb. Mae coed yn tyfu yno heddiw, ac nid yw'r siâp i'w weld mor eglur;
- (ch) polyn telegraff; nid yw'n bosib gweld ble'n hollol mae gwaelod y polyn. Rhaid cofio y byddai'r hen ffordd yn dilyn o amgylch y Graig, a gallai'r polyn fod ar y ffordd honno yn y cefndir;
- (d) Creigiau'r Clegir yn ymestyn i lawr at geg yr hen dwnnel rheilffordd.

2. Ardal Pont y Bala:

- (a) llethrau Glynrhonwy yn ymestyn hyd lan Llyn Padarn;
- (b) staen yn unig;
- (c) siâp tomen chwarel. Tybed fyddai siâp fel hyn ar domen-nydd wast y chwarel?
- (ch) Polyn telegraff; oedd yna gyfres o bolion fel hyn yn dringo'r llethr (neu'r inclên) ger Chwarel Vivian?
- (d) creigiau'r Fachwen.

Dyna'r cliwiau. Penderfynwch chi! Ac oes, mae yna lawer 'ond' ac 'os' a 'tybed'.

Tŷ DANIAL

Daeth cais y mis hwn o ardal Waunfawr. Ar yr allt sy'n arwain o Groeslon y Waun i fyny i gyfeiriad Cefn Du a Bwlch y Groes, mae adfail hen fwthyn. yr enw arno ar lafar oedd Tŷ Danial. Mae'n sefyll ar y dde wrth ddringo'r allt, ac yn uwch na'r tro am Bendas Eithin, ond cyn cyrraedd cyrrion y goedwig. Rhwng Tŷ Danial a'r goedwig ei



Mae'r llun hwn yn ymddangos fymryn yn hynach na'r ddau arall? Ellis o Benisa'rwaen yw un o'r dynion yn y llun.



Criw o weithwyr yn Sied Awstralia. Tynnwyd y llun ar y pedwerydd ar ddeg o Awst 1925. Mae tad Goronwy Lewis, a gai ei adnabod fel Joe Garreg Lydan, yn drydydd o'r chwith o'r rhes sy'n eistedd ar lawr. Wrth ei ochr mae Glyn Davies (cefneder), eto o Garreg Lydan, Dinorwig. Ganed Goronwy Lewis yn Tan y Garret, y tŷ uchaf yng Nghymru.



Gweithwyr o Awstralia eto. Ellis Parry o Ddeiniolen yn hollti yng nghanol y llun. Mae hefyd i'w weld yn llun gweithwyr y sied — trydydd o'r chwith yn y rhes o ddynion yn eistedd.

hun mae adfeilion eraill hefyd: Pen y Ffridd efallai? Oes rhywun efo mwy o wybodaeth am yr hen fythynnod? A beth oedd enw cywir Tŷ Danial? Neu pwy oedd 'Danial'?

POSTMON LLANDINORWIG

Yn ystod misoedd gaeaf 1860-61 gwnaed casgliad arbennig gan bobl ardal Llandinorwig i brynu dillad newydd i'w postmon, Hugh Prichard, er mai 'llythyr-gludydd' oedd yr enw crand a ddefnyddid arno bryd hynny! Roedd cryn ddadlau yn mynd ymlaen yn y cyfnod ynglŷn â'r ffaith fod y postmyn yn gweithio ar y Suliau. Teimlad llawer o gapelwyr selog yr ardal oedd na ddylai'r fath beth fod. P'run bynnag am hynny, mae'n amlwg fod gan y trigolion feddwl go uchel o'u postmon, gan iddynt gasglu cyfanswm o chwe phunt i brynu dillad iddo, sef 'gwisg Sabbothol o frethyn rhagorol, côb uchaf o'r pilot cloth gorau, a patent mackintosh, gyda'r hon y gall gludo y llythrau a'r pcedi heb i ddafn o ddŵr fyned at yr un ohonynt.'

Cyflwynwyd y gwisgoedd iddo ar ddiwedd Rhagfyr — rhyw fath o anrheg Nadolig — 'arwydd o'i lafur a'i ffyddlondeb yn gwasanaethu mewn oerni a gwres, gwynt a glae — ond yn parhau i orfod gweithio ar y Suliau.'

Am ba hyd tybed y bu Hugh Prichard yn gwasanaethu'r ardal yn ei 'patent mackintosh'?

CERDDORFA CWM Y GLO

Cysylltodd Catherine Roberts, o Landudno, ynglŷn â'r llun o Gôr a Cherddorfa Cwm y Glo a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr o'r *Eco*. Mae Mrs Roberts yn nodi bod ei mam, Lizzie Jane Williams, yn ymddangos yn y llun. Hi oedd yr aelod ieuengaf yn y côr yn 13 oed. Yn ôl pob sôn tynnwyd y llun ar achlysur arwisgo Edward, Tywysog Cymru yng Nghaernarfon ar Fehefin 23ain, 1910. Mae Mrs Roberts hefyd yn nodi bod ei mam yn y llun o gôr cymysg Charles Owen, Llanberis a ymddangosodd yn *Eco* Hydref 1995.

* * * *

A dyna golofn gyfan y mis hwn heb unrhyw gyfeiriad at Lanrug! Gyda diolch i bawb a gysylltodd â mi; yn arbennig felly, Mr Goronwy Lewis, Llanberis. Rwy'n siŵr y bydd cryn ddadlau ynglŷn â'r llun posib o Graig yr Undeb.

Cofiwch anfon eich sylwadau neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (ffôn: 01286 673515).

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

CHIROPODIST

**Gwasanaeth
yn eich cartref**

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

**57 Glanffynnon
LLANRUG**

Ffon:

(01286) 675754

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaen)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

O Siambar Selwyn

Trychineb Dunblane sy'n mynnu ymwithio i'r Siambar y tro hwn. Flwyddyn union yn ôl roeddwn i'n treulio ychydig ddyddiau yno ac amryw yn fy holi ar ôl i mi ddychwelyd — ble'n union mae Dunblane? Sut le ydi o?

Bellach fe wŷr y byd ble mae Dunblane ac am y drychineb a fu yn yr ysgol leol. Fe fedrwyd chi ddeud yn berffaith ones — does 'na ddim byd yno, ond ei fod o'n le hwylus i aros os ydych am weld rhai o olygfeydd prydfarthaf yr Alban. Ond mae yna un peth sy'n aros yn y cof am y lle, sef cyfarchion a chroeso'r trigolion.

Rwy'n cofio cerdded hyd strydoedd culion y ddinas (ydi mae Dunblane yn ddinas gan fodd iddi Eglwys Gadeiriol hardd) a theimlo'r awyrgylch groesawgar, gartrefol ar unwaith. Troi i mewn i'r eglwys a'r offeiriad yn mynd a ni o gwmpas gan adrodd hanes yr eglwys wrthym. Talu ymweliad â'r dafarn ger yr orsaf a derbyn yr un croeso yno. Er bod eira yn garped ar strydoedd Dunblane a'r hin yn oer, ganol Mawrth 1995, roedd 'na gynhesrwydd yn y croeso a gafwyd ar y stryd, yn yr ychydig siopau sydd yno, yn yr eglwys ac yn y dafarn. Yr argraff a gafwyd yn syth oedd fod yno gymdeithas glòs a phawb fel petaent yn adnabod ei gilydd, ac yn gyfeillgar a chroesawgar, ac yn gefn i'w gilydd. Oeddan, roeddau nhw fel un teulu rhywsut.

Dwi'n cofio gweld y mamau yn disgwyl am eu plant wrth yr ysgol hefyd, a'r ddynas lolipop yn sicrhau ei bod hi'n ddiogel iddyn nhw groesi'r stryd i fynd i ddiogelwch a chynesrwydd eu cartrefi.

Ond, ar fore Mercher y trydydd ar ddeg o Fawrth 1996 fe ddaeth angau 'a'i draed plu a'i drawiad plwm' i barlysu dinas fechan Dunblane.

Fedra i ddim honni fy mod i'n 'nabod neb yn bersonol yn

Dunblane ond eto, oherwydd sirioldeb a chyfarchion cyfeillgar y trigolion, rwy'n teimlo fy mod i yn eu 'nabod' nhw rhywsut hefyd.

Mae'r trychineb hwn wedi ysgwyd y byd. Beied natur i raddau am drychineb Aberfan, ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Beied blerwch am drychineb Hillsbrough. Ond yr hyn sy'n ein corddi am drychineb Dunblane yw mai dyn a'i arf fu'n gyfrifol am y lladdfa, ac mai dosbarth o blant bach pump oed a'u hathrawes a laddwyd. A'r cwestiwn a ofynnir gan bawb yw, pam?

Pam eu cipio ym mlodau eu dyddiau o ganol eu hwyl yng nghampfa'r ysgol? Pam fod un eiliad o wallgofrwydd yn troi chwerthin a sirioldeb a direidi plant yn sgerechiadau o ofn a phoen a griddfan? Llawenydd yn troi'n dristwch ar amrantiad. Pam?

Bob tro y bydda i'n mynd heibio Aberfan mae'r drychinewb yn dod yn ôl wrth gael cipolwg ar y rhesi o feddau cadwynog. Wrth deithio i'r Alban mi fydda i yn mynd heibio Lockerbie gan gofio am y gyflafan fu yno; a fydda i byth yn ymweld ag Anfield heb aros ennyd wrth garreg goffa sy'n nodi enwau y rhai a drengodd yn Hillsbrough.

A bellach mi fydd atgofion o drychineb ynghlwm wrth Dunblane.

Fel y dywedais, roeddwn i yno flwyddyn union yn ôl Rydwi wedi cerdded strydoedd Dunblane yr wythnos hon hefyd, er fy mod i dros bedwar can milltir o'r lle.

Dwi wedi pasio heibio'r ysgol. Dwi wedi troi i mewn i'r dafarn. Dwi wedi treulio munudau tawel yn yr eglwys.

Mae purdeb gwyn yr eira ar y brynau o amgylch; mae eirlysiau yn gwyro'u pennau mewn galar; does 'na ddim sŵn plant yn chwarae ar iard yr ysgol. Ydi, mae Dunblane yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd flwyddyn union yn ôl. Ac mi rydw innau, fel pob

un ohonoch, yn gofyn pam? Pam y digwyddodd hyn?

Mae Bardd yr Haf wedi crynhoi'r cyfan, o weld yr angladdau yr wythnos hon:

*I'r addfuyn rhoch orweddfa — mewn oer Fawrth
Mewn rhyferythw gaea'
Rhoch wedd wen dan orchudd iâ
Rhoch dynerwch dan eira.*

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen: Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu at ddibenion elusennol ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon ceisiadau, ynghyd â chopi o'r fantolen ariannol archwiledig ddiweddaraf, mewn amlen wedi'i marcio 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen' i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, Deiniolen, erbyn 27 Ebrill 1996 a dim hwyrach na hynny.

Y Ganolfan Gymdeithasol: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Ganolfan ar 20 Chwefror, pryd yr etholwyd y canlynol i wasanaeth ar y Pwyllgor Rheoli am y flwyddyn sy'n dilyn — Philip Guy (tîm pêl-droed), R. Leonard Jones (Plaid Cymru), Tydfil Jones (Cyngor Eglwys), Yvonne Phillipson (Urdd St. Ioan), Richard Taylor (Cymdeithas Tai Pentre Helen), Caroline Davies (Clwb leuenctid), roedd hefyd yn bresennol Owen G. Roberts (Prifathro), a Robert Williams (cynrychiolydd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen). Ni wyddom hyd yma pwy fydd yn cynrychioli y Cyngor Unedol newydd ar y Pwyllgor.

Etholwyd y swyddogion canlynol am 1996 — Cadeirydd: R. Leonard Jones; Trysorydd ac Ysgrifennydd Llogi: Caroline Davies; Ysgrifennydd: Robert Williams.

Y Seindorf: Yn ystod noson ymarfer y Seindorf cafwyd munud o dawelwch a chwaraewyd emyn-dôn gan y Seindorf er cof am y rhai anffodus a gollodd eu bywydau yn y gyflafan erchyll yn Dunblane yn ystod y mis.

Dydd Gweddï Byd-eang y Chwiorydd: Cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddï yn Ebeneser ar Fawrth 1af. Cymerwyd rhan gan chwiorydd Ebeneser, Cefnywaun, Libanus ac

Eglwys Llandinorwig. Merched Haiti oedd yn anfon y neges fyd-eang eleni. Cafwyd anerchiad gan Mrs Eirlys Williams, a'r arweinydd oedd Miss J. Parc Jones. Cyfeiliwyd gan Mrs Gwen Griffith.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Caban, 19 Chwefror, o dan ofal Mrs Eirian Larsen, Caernarfon. Estynnwyd croeso iddi gan y llywydd, Mrs Buddug Jones. Bu'n dangos inni sut i nyddu ar droell, gan dynnu ein sylw at y gwahanol fathau o wllân — gwllân dafad, gafr, ci, cwningen a chamel yn eu msg. Cafodd yr aelodau fwynhad mawr o weld y gwahanol nwyddau a luniwyd ganddi. Diolchwyd i Mrs Larsen gan Mrs Iona Richards.

Ar Fawrth 1af mwynhaodd yr aelodau swper Gŵyl Ddewi yng Nghastell Cidwm, Betws Garmon. Cawsom wledd o fwydydd Cymreig. Hyfryd oedd gweld yr eirlysiau ar y byddau a chafodd pawb genin Pedr i ddod adref. Diolch i Mrs J. Jones a Mrs M. E. Jones am drefnu'r noson.

Priodas: Llongyfarchiadau i Ian Prys Roberts, Crud yr Awel, ar ei briodas â Natasha Relton, yn Thetford, Suffolk. Byddant yn cartrefu yn Harrington, Bury St. Edmonds.

Diolch: Dymuna Dylan Williams, 1 Pentre Helen, a Nia Saynor, ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad yn ystod gwyliau'r Nadolig.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Cyngor yng Nghefnywaun, nos Lun, Mawrth 11. Croesawyd y Parchg Ifor Lloyd Williams, Bangor, yn ôl i Ddeiniolen unwaith eto. Dan ei arweiniad ef cafwyd cyfarfod gwerthfawr yn trafod sylfeini'r Efengyl. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau Cablyd, sef nos lau, Ebrill 4. Ceir gwasnaeth Cymundeb dan arweiniad y Parchg John Pritchard yn Ebeneser am 7 o'r gloch.

Y Gymdeithas Lenyddol: Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun, Chwefror 26.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



Argraffu a Ffotogopio Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T

Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

Teithiau Cerdded
'NABOD BRO

Trefnir cyfres o deithiau cerdded
yn y fro yn ystod y gwanwyn a'r
haf. Bydd manylion yn yr Eco o
fis i fis.

CROESO CYNNES I BAWB

'O AMGYLCH LLYN PADARN'

Nos Wener, 12 Ebrill am 6.30

Cyfarfod ger Pont Pen-llyn

Ffoniwch Caernarfon 673515

'Un funud fach . . .'

YSTYR Y PASG

Fel hyn yr ysgrifennodd Paul: 'y mae Duw yn dangos ei gariad tuag atom, oblegid a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni' (Rhuf. 5:8). Dyna le annhebygol i neb weld cariad Duw! Onid gwadu cariad Duw y mae hyn? Y Person yma, na allai Duw ddisgwyl dim mwy gan neg nag a gafodd gan Hwn, un a fu fyw yn llwyr i Dduw ac i eraill yn dod i ddiwedd mor ofnadwy! Ymhle mae Duw, yn wir, ei fod yn gadael i'r fath beth ddigwydd? Buasech yn disgwyl i farw Iesu Grist droi ei ddisgyblion yn anffyddwyr, bod y fath dynged wedi dod i ran y fath un. Ond y gwir amdani yw mai fel arall yn hollol y bu. Trwy'r Testament Newydd rydym yn cael y bobl hyn â llawenydd yn dawnsio yn eu calonnau eu bod wedi cael Duw ac wedi gwybod sut Un ydyw, ac mai yng nghroes Iesu Grist yn anad unman y cawsant hynny.

Sut y bu hyn? Does ond un esboniad: i'r disgyblion cyntaf weld, y tu hwnt i bob amheuaeth, mai Duw ei hun oedd wedi dod atynt yn Iesu Grist. Nid ar unwaith y gwelsant hynny. Dryswch llwyr iddynt ar y dechrau oedd yr hyn a ddigwyddodd ddydd Gwener y Groglith, a ffoi o'r lle mewn dychryn a siomedigaeth chwerw a wnaethant. Pa bryd, felly, y daethon nhw i weld pwy oedd Iesu Grist? Fore'r Pasg, yn siŵr, i ddechrau, pan ddaeth Iesu Grist o'r bedd yn fyw. 'Bobol! mae'n anodd credu,' meddych. Felly'r disgyblion hefyd. Lol i gyd ganddyn nhw oedd stori'r gwragedd ei fod wedi codi o'r bedd. A phan ddaeth yr Iesu atynt, tybio ddaru nhw mai ysbryd oedd. Ond bu raid iddynt gredu oherwydd bu'r Iesu'n mynd a dod yn eu plith am bron i chwe wythnos wedyn. Ac eto ni welodd y disgyblion cyntaf yma yn iawn pwy oedd Iesu Grist tan y Sulgwyn, saith wythnos ar ôl y Pasg. Ydych chi'n cofio beth a ddigwyddodd ar y Sulgwyn? Ie, 'tywalltiad yr Ysbryd Glân' yn iaith y Beibl. Beth oedd hynny? Hyn yn un peth (ond nid dyna'r cwbl chwaith) iddynt gael goleuni ysbrydol i wybod pwy oedd Iesu Grist a beth oedd ystyr y Groglith a'r Pasg. Duw ei hun yn ei Fab oedd y Person rhyfedd hwn ac fe fu farw ar y groes 'er ein mwyn ni' a 'throsom ni'.

(Allan o *Dyddiau Gras*, cyfrol o ddarlenniadau o waith y diweddar Barchg Emyr Roberts.)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Tîm Pêl-droed Ysgol Waunfawr noson agor y cae newydd . . .

Enillwyr y Clwb 300 mis Chwefror — £40: Mrs S. M. Jones-Evans, Pennant; £25: Mrs A. Thomas, Gilfach; £10: Mr Eurig Wyn, Y Frenni.

Plaid Cymru Waunfawr: Trefnwyd nosn i'r pentrefwyr i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Snowdonia Parc, nos Sadwrn, 9 Mawrth. Ar ôl bwffe blasus bu Arfon Gwilym yn ein diddanu â'i ganu baledi i gyfeiliant Jina Gwyrfa'i ar y piano. Cawsom gyfle hefyd i gyd-ganu dan arweiniad y Cynghorydd Eurig Wyn i ddiweddu'r noson.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan, nos Lun, 22 Mawrth, am 7.30 o'r gloch, pryd bydd cyfle i'r Blaid gyflwyno ei pholisïau i'r di-Gymraeg yn ogystal a thrafod yr Awdurdod Unedol newydd, ac unrhyw broblemau perthnasol i'r pentrefwyr. Croeso i bawb.

Merched y Wawr: Trefnwyd swper blasus i ddathlu Gŵyl Ddewi a daeth nifer dda o aelodau at ei gilydd y noson honno. Cawsom ein diddanu gan driawd talentog o blith pobl ifanc y pentref a diolchodd Marian Wyn Jones iddynt ar ran y Gangen. Diolchwyd hefyd i'r tri cyd-lywyddion am drefnu'r noson.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, 28 Mawrth, am 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan, pryd y cawn gwmni Haf Meredydd hefo'i sgwrs a sleidiau am 'Fis yn Affrica'.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i Mr H. Edwards, Stad Bodhyfryd, yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Fore Sul, 2 Mawrth, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw un o gymeriadau annwyl y pentref, Mrs Annie Roberts, Fron Olau. Cydymdeimlir yn ddwys â'i mherch, Elisabeth Ann, a'r teulu yn eu profedigaeth.

Yn yr Ysbyty: Mae'n ddrwg gennym glywed fod Mrs G. Jones a Fflur Llywelen yn gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion atynt a'n dymuniadau gorau am wellhad buan.

Croeso Adref o'r ysbyty i Mrs Owen Williams, Llidiart Wen; Mr Rol Williams, Ardwyn; a Mrs Beti Griffith, Gorrffwysfa. Hyderwn yn fawr eich bod yn gwella'n ddyddiol. Da gweld Deian Elfryn, Coed Gwydryn, yn gwella ar ôl derbyn

llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Diolch: Dymuna Mrs Beti Griffith ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Diolch: Dymuna Mrs Nancy Williams, 2 Bro Waun, ddiolch i'w pherthnasau a chyfeillion, hefyd Mrs Thomas a'r athrawon, staff y gegin a phlant yr ysgol, am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o ysgol Waunfawr.

Bedydd: Fore Sul, Mawrth 10, yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parchg W. R. Williams yn gwasanaethu, bedyddiwyd Gareth Wyn, mab bychan Sandra ac Emyr Jones, Betws Garmon.

Eisteddfod Ysgol: Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Syr Huw Owen fu'n cystadlu yn eisteddfod yr ysgol yn ddiweddar.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i aelodau'r Urdd fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Diolch i'r rhai fu'n eu hyfforddi ar gyfer y Gân Actol a'r Parti Cerdd Dant.



. . . a Thîm Pel-rhwyd yr Ysgol yr un noson.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cyfarfu y Gymdeithas, am y tro olaf y tymor hwn, nos Lun, Mawrth 18. Y gŵr gwadd oedd Gwyn Eryl a chafwyd sgwrs ddiddorol am nifer o ynysoedd y bu yn ymweld â hwy. Y cadeirydd oedd Iolo Huws-Roberts, a diolchwyd i'r gŵr gwadd gan R. Gwynn Davies. Diolch i'r aelodau a gyfrannodd tuag at y lluniaeth.

Talwyd teyrnged i'r ddiweddar Mrs Annie Roberts, Fron Olau, a fu'n aelod ffyddlon o'r Gymdeithas gan y cadeirydd.

Yr Ysgol Sul: Bu amryw o aelodau'r ddwy Ysgol Sul yn brysur yn ddiweddar yn dysgu adnodau ac emynau ar gyfer arholiad y maes llafar. Rwy'n siŵr iddynt wneud eu gwaith yn ardderchog ac y cyflwynir tocyn llyfr i bob un ohonynt yn y Gymanfa ym mis Mai.

Ymdeoliad: Dymuniadau gorau i Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn, ar ei ymdeoliad o'i swydd yn Swyddfa Arfon.

Diolch: Dymuna Elizabeth a theulu y ddiweddar Annie Roberts, Fron Olau, 16 Glynafon Terrace, ddatgan eu gwerthfawrogiad i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad o golli mam a nain annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau, llythyrau, blodau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Antur Waunfawr.

ER COF AM Mrs ANNIE ROBERTS Fron Olau, Waunfawr

Daeth cwmwl dros yr ardal
A chollwyd dagrau'n lli
Pan ddaeth y newydd sydyn
Am ei marwolaeth hi;
Fu gwraig hoffusach, naddo 'rioed
Yn gwisgo esgid am ei throed.

Un fechan o gorffolaeth
Ond mawr fel mam oedd hi;
Yn caru'r pethau gorau
A'i byw, mae'n siŵr gen i;
Fu un erioed mor rhwydd ei gwên
A aeth yn hŷn heb fynd yn hen.

ROL WILLIAMS

Ysgol Feithrin: Mi fydd Cyfarfod Blynnyddol yr Ysgol Feithrin yn cael ei gynnal nos Fawrth, Ebrill 16fed, 1996, am 8.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Gobeithio gweld rhieni yr Ysgol Feithrin a Chylch Ti a Fi yno.

Theatr Bara Caws

yn cyflwyno

LLIFEIRIAU

gan W. S. Jones (Wil Sam)

Nos Sadwrn, Ebrill 20fed
am 7.30 o'r gloch
yn Y Ganolfan

(ADDAS I'R TEULU I GYD)

Tocynnau ar gael gan
Sylvia

21 Bro Waun, Waunfawr
Ffôn: (01286) 650274

★ Tacsî

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

Y LLECYN gan Y Gwalch

Roedd y Sipsiwn yn dal i deithio'r ffyrdd gyda'i *vandos* a'u ceffylau yn yr hen ddull traddodiadol; *'jalling the drom'* chwedl hwythau, hd yn oed am gyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, er mae'n siŵr gen i erbyn hynny ei bod yn amlwg, hyd yn oed iddynt hwy, fod y math yma o fywyd yn prysur ddirwyn i ben yn sgil y Chwyldro Mawr Sosialaidd.

Roedd cynydd mewn trafniadaeth yn un peth ac yn peryglu eu symudiadau, fel nad oedd eu plant, pan ar daith, yn gallu bod yn ddiogel ar y ffordd. Gorfodid iddynt gerdded yn swat rhwng cynffon y wagen ar y blaen a phen y ceffyl oedd yn dilyn. Roedd hi hefyd yn mynd yn gynyddol anodd i ganfod *'atchin tan'*; llecyn delfrydol i aros. Roedd y sgweians newydd, a oedd wedi codi o ddim dros nos a chael rhyw lathen o dir o dan eu traed, wedi cau mynediad i lawer o lecynnau lle'r oedd y Sipsi wedi arfer eu defnyddio ers cenedlaethau. Nid sosialydd mo'r Romani. Roedd yn gresynu wrth dranc yr ystadau mawr. Fel ffaith roedd popeth yn gynyddol gyfyngu arno o bob cyfeiriad.

Y pethau pwysicaf er eu goroesiad oedd porfa a dŵr: *'Chaw ta pani'* yn ôl y rhai hynaf a oeddent yn dal i siarad Romani. Erbyn hynny doedd dim gwarant ar burder y dŵr, ac yr oedd y borfa yn prinhaus, nes y gorfodid iddynt amlhau yr hen arferiad o droi eu ceffylau i gaeau tros nos, a'u cerdded am bellter i yfed, neu gario dŵr lawn mor bell mewn llestri copr. Doedd dim sicrwydd chwaith nad oedd llysiâu meddyginiaethol bôn y gwrych wedi eu gwenwyno gan yr arferiad dioglyd o chwistrellu ymylon y ffyrdd. Lleihawyd hefyd eu harlwy o fwyd pan ddinistriwyd y cwningod gan y clwyd pennau, a magwyd llai o adar gêm.

Roedd agwedd cymdeithas hunanol hefyd a'r awdurdodau yn dechrau caledu tuag atynt. Edrychid arnynt fel pobl i'w dileu, ac nid i'w dioddef fel rhan o fywyd lliwgar y byd. Doedd hyd yn oed yr Eglwys ddim yn hynod oddefgar. Nid hawdd oedd iddynt gladdu eu meirwon mewn tir cysegredig, er fod y Sipsi ynddo ei hun lawn mor grefyddol â chynulleidfia mewn unrhyw gadeirlan, ond fod ganddo gyfrwng gwahanol i ddatgan ei gred yn y Duvel; yr ysbryd mawr a oedd

yn bodoli o fewn popeth byw. Roedd anian (cyn i hwnnw gael ei ail-fedyddio yn amgylchedd) yn gysegredig ganddo, a'i ddifwyno yn bechod. Fel y dywed George Borrow yn *Lavengro* am Jasper Petulengro pan oeddynt yn ymgomio am natur bywyd:

'There's night and day, brother, meddai Jasper, 'both sweet things, sun, moon, and stars brother; all sweet things, there's likewise the wind on the heath. Life is very sweet brother.'

Ond yr oedd y goleuadau melyn cyhoeddus wedi pylu rhamant teulu'r nefoedd, a'r trefi wedi dechrau chwydu eu budreddi allan dros y gwaendir a'i blu.

Yn y cyfnod hwnnw yr oedd ein hunain yn trigo mewn carafan a safai mewn cadlas yng nghefn gwlad ddiarffordd Worcester, ac yr oedd dyfodiad gwanwynol y Sipsiwn o Birmingham, y *'kaulo gav'* (y dref ddu), lle'r oeddynt wedi bod yn gaeafu, fel ymddangosiad y gwenoliaid. Roeddent yn dod yn rhes ar hyd ffordd Droitwich i lawr i Ddyffryn Evesham i hel y cnydau fel yr oeddent yn aeddfedu, o dymor y ceirios a'r pys a'r mefus, hyd at y tatws diweddar a'r hops ym Medi. Byddai'r teulu i gyd wrthi gan barablu fel piod, a'r neiniau yng nghongl y cae yn gwarchod y plant a chadw'r tân o dan y crochan. Wrth gwrs roedd eu bwyd wrth law am ddim, ac nid oeddent yn talu rhent na threth. Rheswm da eu bod yn gefnog. Dywed Borrow fod gan Jasper Petulengro sofrenni aur wedi eu gwnïo fel botymau ar ei gôt!

Roedd y rhan fwyaf yn mynd yn syth trwy ddinas Worcester i ladd dau aderyn â'r un ergyd. Roedd y merched yn cael cyfle i brynu a gwerthu, a doedd dim yn rhoi mwy o foddhad i'r criw nag achosi trafferthion i'r heddlu drwy greu tagfa yn y Tything. Byddai eraill yn torri oddi ar y lôn bôst ym Martin Hussingtree a mynd ar draws drwy ddilyn beth a elwid yn *Pershore Lanes* ac i lawr i'r Dyffryn. Ar y daith honno arferent aros ger coedlan o helyg lle'r oedd ffrwd yn cronni mewn pwll, a chlwt o glychau'r gog yn ei ymylu. Gelwid y fan yn lleol yn Withy Wells. Ymysg y criw yma un tymor roedd Dui a Menti Cooper a'u merch fach ddwyflydd oed, Pletna.

Roedd Pletna wedi bod yn

anniddig ers rhai diwrnodiau, peth amheuthun i blentyn Sipsiwn, ac erbyn iddynt gyrraedd y Withy Wells roedd hi'n amlwg fod yna anghaffael difrifol arni. Roedd hi'n cyfogi, yn boeth ac yn ysgwyd ei phen, ac weithiau yn ysgyrmgu fel ci, a doedd gan yr hen lysieuwraig, Eldora, hyd yn oed fawr wybodaeth am ei chyflwr, ond rhoddai ddail yn gyson ar ei phen. Beth oedd o, wrth gwrs, ond llid yr ymennydd; haint a fu'n drech na fy nghyfoedes Lisi Bach a'm tad yn ddiweddarach.

Doeddent nhw ddim wedi bod yn y llecyn yn hir na ddaeth yr heddlu yno mewn car, i'w atgoffa o'r rheol wyth awr ar hugain. Dywedodd Dui fod ei blentyn yn wael. Cododd y ddau gwnstabl eu heiliau ar eu gilydd, ac nis cawsant eu boddhau â'r ateb nes rhoi eu pennau i mewn yn y *vardo* a gweld y plentyn yn ei gwewyr.

Daethant wedyn trannoeth i holi am y plentyn gan gynnig gwasanaeth meddyg, ond gwrthodwyd hwnnw. Roedd ffydd traddodiadol y rhieni yn dal yn Eldora. Gorfodwyd i'r *vandos* eraill adael cyn nos, ond arhosodd un teulu gyda'r rhieni pryderus. Ar godiad y lleuad bu Pletna farw.

Cloddiasant fedd dwfn ger llannerch y clychau a dodasant hi ynddo yn ei phlanced. Wedi priddo, cyneusant dân ar y bedd, dull a arferant i ddileu amheuaeth fod unrhyw beth wedi ei guddio yno. O gylch hwnnw yr oeddent yn eistedd yn yr oriau mân pan alwodd y plismyn wedyn gyda chymysgedd o ddyletswydd a chydymdeimlad.

Sut mae hi erbyn hyn? gofynnodd un.

'Mae'r chai yn cysgu,' meddai Menti. *'Mae hi wedi cael madael â'i phoen.'*

Ddywedwyd dim chwaneg am y peth.

Yn y plygain ymadawodd y ddwy *vardo* gan adael cylch tân du â maen duach yn ei ganol.

Bob blwyddyn wedyn byddai Dui a Menti yn gwneud pererindod i'r Withy Wells gyda'r meibion a anwyd iddynt yn ddiweddarach, serch fod y mudo gwanwynol wedi *'marw mas'* (chwedl pobl S4C, sy'n chwanog o fenthyca idiomau tramor wrth y llath), gan fod peiriannau wedi disodli pobl hyd yn oed i gynaeafu cnydau.

Hyn oedd y cwbl o'r hanes cyn belled ac y gwyddwn i ar y pryd. Ond roedd epillog, pe bawn i ond yn gwybod. Fe ddaeth hwnnw i'm meddiant pan ymwelais â'm cyfaill Jack Hitchins — hen lafurwr ar y tir

— ar ôl iddo ymddeol i fyw ar lan y gamlas yn Worcester.

Roedd Dui Cooper, ddyliwn, wedi mudo gyda'i deulu i lawr i Kent i fyw at berthynas ar safle barhaol arbennig a wnaed ar gyfer Sipsiwn. Yno yr oeddynt yn rhydd o erledigaeth, ac fe sefydhasant ar y cyd gwmni bychan i baentio tar ar adeiladau sinc mewn ffermydd.

Rhoddodd hynny, wrth gwrs, ben ar y bererindod i'r Withy Wells, ond un gwanwyn, adeg clychau'r gog, aeth yr anian grwydrol yn drech na Dui a Menti. Daethant i fyny mewn carafan — yn cael ei thynnu gan gar erbyn hynny — i gael golwg ar eu hen ardal. Peth rhyfygus, o brofiad personol, i'w wneud.

Roeddynt yn dod o'r Dwyrain, fel y Doethion, drwy Inkberrow ac i lawr y lôn bach gefn i Dunhampstead lle'r oedd trenau Dyfnaint yn croesi. Oedasant yno i Menti gael cyfle i gasglu tusw o flodau gwyllt. Ond fel yr oeddent yn nesau at Droitwich gwelsant, ar drofa yn y ffordd, ddrychiolaeth: lori yn ehedeg yn yr awyr, ac 'oi hôl gerbydau eraill. Ddarfu iddynt ddim deall y rhyfeddod nes iddynt ddod ar bwys y dref, oedd erbyn hyn wedi chwydu allan i'r wlad i'w cyfarfod. Traffordd newydd uchel gerllaw oedd yn cynnal y cerbydau hedegog, ac wrth iddynt geisio cael pen-llinyn ar y Pershore Lanes, canfyddasant eu hunain arni, yn anochel ac yn erbyn eu hewyllys. Doedd dim dewis wedyn ond mynd i ganlyn y rhuthr ac yr oedd y wlad o'u cwmipas yn ymddangos yn ddieithr ac allan o le, a doedd dim arwydd o'r Withy Wells.

Parhad ar dudalen 13.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248


Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim
BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyd gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Y Ganolfan: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan, nos lau, Mawrth 14, gyda Mrs Karen Jones yn cadeirio. Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio am y drychineb yn Dunblane. Croesawyd y Cynghorydd Len Jones, Deiniolen, gan ddymuno yn dda iddo fel Cynghorydd newydd yr ardal ar y Cyngor Unedol newydd — Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd — sydd yn dod i fodolaeth ar 1 Ebrill.

Treuliwyd rhan fwyaf o'r cyfarfod yn trin a thrafod sut mae modd cael pobl yr ardal i ddangos mwy o ddiddordeb gan wneud mwy o ddefnydd o'r Ganolfan. Yr ateb hawdd, mae'n debyg, fyddai gadael pethau fel ag y maent gan dderbyn bod Dinorwig, fel sawl cymuned arall y dyddiau hyn, gwaetha'r modd, yn dioddef o ddifaterwch mawr. Eto, gan mai dyma yw'r unig fan cyfarfod sydd ar gael ar gyfer pawb yn y pentref penderfynwyd y byddai'n rhaid meddwl am ffyrdd llawer mwy positif o wneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa.

Yn dilyn o'r drafodaeth hon penderfynodd y pwyllgor gynnal Boreau Coffi unwaith y mis o hyn ymlaen, yn y Ganolfan, gan ddechrau ar fore Sadwrn, 27 Ebrill, o 10.30 hyd 12.00. Bydd croeso i unrhyw un droi i mewn am banded a bisged a chael cyfle i gael sgwrs gyda hwn a'r llall ac, efallai, rannu neu gynnig syniadau newydd ynglŷn â pha weithgareddau y gellir eu cynnal yn lleol. Bydd croeso hefyd i unrhyw un ddod ag unrhyw gynnyrch neu ddeunydd i'w ddangos neu i'w werthu. Bydd y Cynghorydd Len Jones ar gael i sgwrsio ag unrhyw un sydd eisiau codi unrhyw fater gydag ef. Felly, beth am droi i mewn. Pris mynediad fydd 30c. Edrychwn ymlaen i'r croesawu.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan nos lau, 9 Mai, am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Dymuniadau Da i Mrs Dilys Williams sydd wedi symud i fyw i Benisarwaun yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd. Hefyd fe groesawn yn ôl Mr Kevin Jones sydd yn mynd i gartrefu yn 2 Bro Elidir.

Menter Fachwen: Diolch i Menter Fachwen am osod mainc fechan ar y darn tir wrth ymyl Pen Bryn

Fachwen. Chwi gofiwch i'r fainc, a osodwyd yno y llynedd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, gael ei dwyn. Bellach mae'r safle yn werth ei gweld gyda'r tir o gwmpas wedi ei droi yn ardd hardd er cof am y diweddar Mr Rennell Williams. Bydd yn le hyfryd i bobl leol ac i ymwelwyr fel ei gilydd gael ychydig o seibiant ar ôl cerdded, neu ddreifio, a mwynhau y golygfeydd gwych sydd o'r safle.

Y Pasg: Bydd y Grogolith a'r Pasg gyda ni ymhen yr wythnos. Bydd gwasanaeth o'r Awr Dawel ar brynghawn dydd Gwener y Grogolith (5 Ebrill) o dan arweiniad y Parchg Tegid Roberts rhwng 2 a 3 o'r gloch yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Yna ar fore Sul y Pasg cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 10.30 y bore. Croeso i bawb ddod i'r gwasanaethau hyn.

Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd: Ddydd Gwener, 1 Mawrth, yn y Ganolfan cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi. Cymerwyd rhan gan Mrs Irene Morris, Mrs Margaret J. Jones, Miss Morfudd Jones, Mrs Megan Price Morris, Mrs Nellie Williams, Mrs Alice Gruffydd, Miss Elen W. Jones, Mrs Betty Roberts, Mrs Rhian Wyn Evans, Mrs Karen Jones a Mrs K. Ll. Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Dilys Williams. **Cinio Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Undebol:** Aeth un ar bymtheg o aelodau'r Gymdeithas Undebol i fwynhau cinio yng Ngholeg Menai, Llangefni, ddydd Mercher, 6 Mawrth, a chael amser wrth eu bodd.

Daw tymor y Gymdeithas i ben am eleni ar nos lau, 25 Ebrill, am 7.30 o'r gloch, pryd y disgwylir Cwmni Drama Llanberis atom i'r Ganolfan i berfformio dwy ddrama fer. Felly, cofiwch y dyddiad a dewch i gefnogi.

Diolchiadau: Gyda Chyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Arfon yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth, manteisiwn ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Cynghorwyr Jacob James a Mrs Pat Larsen am eu gwasanaeth fel Cynghorwyr dros y blynnyddoedd diwethaf. Bydd y Cynghorydd Jacob James yn ymddeol fel Cynghorydd ar ddiwedd mis Mawrth tra bydd Mrs Larsen yn Gynghorydd ar Gyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Eglwys M.C. Brynrefail: Yn ystod y gwasanaeth brynghawn Sul, Mawrth 10fed, darllenwyd tocynnau aelodaeth a chroesawu yn gynnes iawn Mr a Mrs Emyr Williams, Llwyn Iorwg, Clwt-y-bont, yn aelodau yn yr Eglwys.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Ebrill:

7. Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)
14. Mr Vernon Owen, Llandwrog (5.30)
21. Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)
28. Parchg Dewi Roberts, Pen-y-

groes (5.30)

Cynhelir yr Ysgol Sul ar Ebrill 21ain a'r 28ain.

Cymdeithas y Chwiorydd: Bydd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas yn ystod 1996 yn cael ei gynnal yn y Festri nos lau, Ebrill 18fed, am 7 o'r gloch. Y siaradwr gwadd yn y cyfarfod fydd y Parchg H. Gwynfa Roberts.

Cyfarfod Dosbarth Padarn: Cynhaliwyd cyfarfyddiad o aelodau eglwys i'r Dosbarth yn Nghapel Brynrefail nos Fawrth, Mawrth 20fed. Anerchwyd yn y cyfarfod gan Mr J. H. Hughes, Capel Coch.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN


★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

E. W. Pritchard


CENTRAL GARAGE

Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT



BRYN
(B & K Williams)

Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482



SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.
Ffôn: (01286) 650721

Hwyl i'r Tri

Y Sadwrn nesaf, Mawrth 30, bydd tri gymnast ifanc o Lanberis yn teithio i Abertawe i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Cenedlaethol Ysgolion Cymru. Er mor ifanc, mae'r tri yn hen lawiau ar y gamp. Bydd Mathew Pike yn cystadlu yn Adran dan 11 oed y Bechgyn. Enillodd ef gystadleuaeth Ysgolion Gwynedd yn ddiweddar, ac mae'n edrych ymlaen at gystadlu yn Abertawe. Bydd Katherine Pike, chwaer Mathew, a Gemma Watterton yn cystadlu yn Adran dan 13 oed y Merched, a dymunir yn dda iddynt hwy hefyd. Mae'r tri yn aelodau o Glwb Gymnasteg Caernarfon. Cynhelir y Bencampwriaeth Genedlaethol yng Nghampfa'r Brifysgol yn Abertawe.

Llongyfarchiadau hefyd i Nia Wakeham a enillodd y bedwaredd wobwr ym Mhencampwriaeth Cylch Arfon o'r Urdd yn ddiweddar. Roedd yn cystadlu yn yr oedran dan 11 oed, ac o gofio mai 8 oed yw Nia ac mai chwe mis yn unig sydd ers iddi ddechrau gwneud gymnasteg, gwnaeth yn arbennig o dda.

DRAENOG



STORI DDILYS yw'r un a glywais am fasgedaid o ddillad a adawyd yn Swyddfa'r Heddlu yn Llanberis. Pan ddaeth gwraig garedig o hyd i bentwr o ddillad ar lawr mewn cae, aeth ati i'w golchi a'u smwddio cyn eu cyflwyno i ofal yr heddlu. Digwyddodd sôn am y peth wrth ei chymdoges, a synnu o ddeall mai'r gymdoges oedd pia'r dillad. Mae honno'n mynnu ei bod wedi golchi'r dillad a'u rhoi ar y lein i sychu, ac yn credu bod gwyf cryf wedi torri'r lein a chwythu'r dillad dros y ffordd i'r cae. Oes gwir yn y si bod ei theulu'n amau mai chwilio am ffordd rad i olchi'r dillad oedd hi?

**Cerrig
Beddau**

**Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau**

**Ffoniwch am bris
(01286) 830041**

Ac i'r Tîm

Mae tîm rygbi saith-yr-ochr Adran yr Urdd Llanberis yn gobeithio cymryd rhan yng Ngornest Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth yr haf yma. Maent wedi cyrraedd rownd derfynol Sir Eryri, ac yr oedd y gêm derfynol, ar gae Clwb Rygbi Bangor, wedi ei threfnu ar gyfer dydd Iau, Mawrth 25 (diwrnod cyhoeddi'r rhifyn hwn). Cawn hanes y gêm y mis nesaf.

Yr oedd pedair rownd cyn y rownd derfynol. Yn y rownd gyntaf, enillwyd o 50 pwynt i 5 oddi cartref yn erbyn Llanrug. Cafwyd buddugoliaeth rwydd yn yr ail rownd hefyd yn Llandudno, yn erbyn Ysgol San Siôr, o 42 pwynt i 5. Nid oedd raid i'r hogia chwarae o gwbl yn y drydedd rownd gan fod y gwrthwynebwyr wedi ildio'r gêm

iddynt. Ond bu raid brwydro'n galed yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Adran Ysgol y Garnedd a chwaraewyd yn Llanberis ar Fawrth 26. Un cais yn unig a sgoriwyd yn y gêm, a Llanberis a enillodd felly o 5 pwynt i 0.

Gwerthfawrogir y cymorth a geir yn y sesiynau ymarfer gan Mr John Paggett o Glwb Rygbi Caernarfon.

Yn ddiweddar, bu dau aelod o'r tîm rygbi yn cymryd rhan yn nhreialon terfynol Ysgolion Cynradd Gorllewin Cymru a gynhaliwyd yn Yr Hendy, ger Llanelli.

Llongyfarchiadau i Owain Morris a Willie Mullaine am gyrraedd y treialon. Roedd yn dipyn o gamp i'r ddau gyrraedd y treialon o gwbl o gofio mai dim ond pedwar oedd yn cael cynrychioli Gwynedd ynddynt.



Gwyddom bod Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn gorfod cwtdogi'r gwariant ariannol y dyddiau hyn. Ond go brin mai ceisio arbed arian yr oedd un o ddynion tân Llanberis pan gyrhaeddodd yr orsaf dân yn ei drons hir yn ddiweddar. Yn ei wely yr oedd pan ganodd y gloch i'w alw i'r orsaf un pnawn. Roedd o'n **DRAED** i gyd wrth neidio o'r gwely a rhuthro o'r tŷ ... wedi anghofio gwisgo'i drowsus. Roedd yn union fel un o **BRYN**adonas y bale.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: **673981/675807**

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Diolchiadau: Dymuna Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, ddiolch yn ddifffuant iawn i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am y caredigrwydd anhygoel a dderbyniodd yn ddiweddar.

Diolch arbennig hefyd i staff a Ward Maesdu, Llandudno, a Meddygfa Waunfawr, am eu gofal. Diolch i bob un ohonoch — Nan.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i deulu Pant Hyfryd. Ceunant, ar golli eu nain Lillian Catherin Rice-Hughes, Rhiwlas, Nefyn, yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau: Pob hwyl i Don, Rhos-y-graig, Ceunant, yn ei swydd newydd efo cwmni Arfonia.

CAPEL CEFN Y WAUN

O, gwêl y gysegredig gorlan,
Adeiladwyd ymhlith y praidd.
A diolch y gweithwyr i'r Arglwydd,
Yn rhan o'i sylfeini a'i wraidd.

O, clyw yr emynau yn codi
Trwy lechi y to tua'r nef;
Y teulu Calfinaidd yn talu
Eu teyrnged, trwy gân, iddo Ef.

O, gwranddo ar neges y bregeth
Am gulni a gwired y ffordd;
A gadwodd chwarelwyr Gwaen Gynfi
Yn ffyddlon, trwy egwyl a storm.

O, teimla y cymorth o'r weddi
A'n daliodd pan drawodd y don,
A chodi ein golwg o'r dyfnder
I gerdded dan ofal Ei ffon.

O, cofia am aberth Calfaria,
A brynodd ein heddwch drwy boen.
A thyred i chwynnyn y llwybrau
Sy'n arwain i Gorlan yr Oen.

MAIR P. WOOD

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**


**IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN**

(01286) 870484





- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

ECO'R IFANC

Dyma 5 llun o Stori'r Pasg. Gosodwch y lluniau yn eu trefn trwy roi rhifau yn y cylchoedd.




Gorffennwch lun y ddeilen balmwydd.



Chwilio'r Geiriau.

A	O	I	L	Y	W	G	O	E	T
Rh	A	N	N	U	I	Th	I	W	Y
P	A	M	D	E	S	Y	R	M	Rh
N	U	B	T	C	A	N	A	R	A
O	A	B	H	Y	T	R	C	U	N
M	I	R	O	G	W	E	I	Dd	I
I	P	E	W	B	U	Y	C	Y	S
S	G	N	U	Y	D	A	U	I	D
W	Y	I	Rh	U	Dd	Y	D	W	F
Dd	W	N	C	R	O	E	S	Ff	Ch

SIMON
CARIO
CROES
RHANNU
DILLAD
GWYLIO
ARWYDD
BRENIN
TYWYLLWCH
GWEIDDI
MARW
MAB DUW



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Gwllhad Buan: Dyna a ddymunwn i'r canlynol —

Mrs Myfi Roberts, Rhes Plas Tirion, sydd yn awr adref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Dylan Williams, Antmor, Bryn Moelyn, ar ôl iddo dorri ei goes yn ddiweddar.

Mr a Mrs Jackinon, Plas Tirion. Derbyniodd Mrs Mackinnon lawdriniaeth ond mae adref yn awr ac yn gwella; bu Mr Mackinnon yn aros am gyfnod ym Mhlas-y-bryn, Bontnewydd.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 11 Mawrth, aeth criw da o aelodau'r gangen i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda bwffe yn y Bistro, Llanberis. Roedd yr arlwy yn wledd i'r llygad a'r blasu yn fendigedig. Mwynhawyd cawl cennin, amrywiol gigoedd, salad, wyau Môn, Pwdin yr Wyddfa a choffi a bara brith. Roedd pawb wedi'u gwala ac wedi mwynhau'r cyfan ar waetha'r plu eira y tu allan. Diolchir i Mary a Meryl am wneud y trefniadau.

Anfonir cofion annwyl at Nan Humphreys ac Eileen Thomas. Llongyfarchwyd Mrs Whiteside Thomas ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolchodd y llywydd, Meirwen Lloyd, i'r rhai fu'n paratoi bwyd ardderchog i'r beirniaid ac i'r aelodau a gyfrannodd tuag at y caffi, ac a gynorthwyodd yno, yn ystod Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Cynhelir Bore Coffi i'r anabl, Mai 17, a gofynnir yn garedig am deisennau, ac yn y blaen.

Os dymunwch unrhyw un roi cyfraniad tuag at yr Ŵyl Gerdd Dant bydd Meirwen Lloyd, Margaret Parry a Megan Roberts yn barod i'w derbyn.

Gwestai mis Ebrill fydd Catherine Watkin. Croeso cynnes i chwi oll, nos Fawrth, Ebrill 16, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch.

Cynhelir Twmpath Dawns, Ebrill 19, yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon.

Plaid Cymru: Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, nos Fercher, Mawrth 6. Ar ôl y wledd, dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis, cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Olwen Llywelyn fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gwaith fel ysgrifennydd y gangen.

Yr Aelod Seneddol oedd y gŵr gwadd, a chafwyd gan Dafydd Wigley gipolwg ar y 22 mlynedd y bu'n cynrychioli Arfon yn y Senedd. Bu rhai gwelliannau amlwg, er enghraifft yn statws yr iaith, datblygiad S4C, ac effaith y diwydiant teledu ar ardal Caernarfon, ac erbyn hyn mae Eurig Wyn yn cynrychioli Cymru ar Bwyllgor Rhanbarthau Ewrop, ac yn aelod o'i Bwyllgor Gwaith. Cafwyd colledion hefyd; bu dirywiad yn y gwasanaethau cyhoeddus a thanseiliwyd y gyfundrefn addysg. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw gysylltiad â Chymru, ac nid yw'n gymwys i siarad drosti. O'i chymharu â thyfiant economaidd Iwerddon rydd, lewyrchus, mae Cymru ymhell ar ôl. Yr unig ateb i broblemau Cymru heddiw yw Senedd ar dir Cymru. Yn y cyfamer mae gan Gyngor newydd Gwynedd gyfle gwyth i ddangos beth a ellir ei wneud. Er bod penderfyniadau anodd i'w gwneud, oherwydd toriadau ariannol y llywodraeth, roedd yn falch fod y Cyngor newydd yn torri ar weinyddiaeth yn hytrach na gwasanaethau. Dymuna'n dda i'r cynghorwyr ym eu gwaith.

Wedi araith rymus Dafydd Wigley mwynhawyd adloniant hwyliog gan Arfon Gwilym. Diweddwyd noson hapus drwy dynnu'r raffl, a enillwyd gan 1, Valmai Williams; 2, Paul Rawlinson.

Enillwyr y Clwb Cant oedd — Ionawr: 1, Dyfan Roberts, Melin Cwawia; 2, Mair Parry, Tir na' Nog. Chwefror: 1, Iwan Roberts, Lleifior; 2, Berwyn Hughes, 34 Glanffynnon. Mawrth: 1, James Jones, Dwyros;



Michelle Louise Roberts oedd yn fuddugol ar yr Unawd Alaw Werin a'r Unawd Cerdd Dant yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

2, Arwel Jones, Cae Eboni, Penisarwaun.

Enillwyr Clwb 100 Ysgol Brynrefail £11.25: John Williams (50); £6.75: B. Hastings (15); £4.50: B. W. Hughes (1). Chwefror — £11.25: M. B. Garnett (41); £6.75: Eirlys Williams (30); £4.50: J. Harding (44). Mawrth — £11.25: V. Simons (35); £6.74: Sharon Hornby (29); £4.50: R. & D. Evans (6). Os dymunwch ymuno â'r Clwb 100 cysylltwch un ai â Pat Jones (01286) 674372, neu Bill Hastings (01286) 676815.

Ysgol Gynradd Llanrug: Gwibiodd tymor arall heibio yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n ymarfer yn galed ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr iddynt am gael y darian, am yr adran ygol a gafodd y marciau uchaf yn yr Eisteddfod Cylch. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir, a gynhelir yn Neuadd J.P., Bangor, Mawrth 23ain. Hwyl fawr i Iwan Rhys, Bl. 6, yn y gystadleuaeth Unawd Pres; i Barti Llio, a Pharti Huw, yn y gystadleuaeth Dawnsio Gwerin; i'r partion Unsain a Deulais; ac hefyd i'r Côr. Llongyfarchiadau i'r Parti Cerdd Dant ar ddod yn ail yn yr Eisteddfod cylch; ac i'r holl bartion Dawnsio Gwerin a Dawnsio Disgo. Da iawn chi!

Bu'r tîm pêl-droed 5-bob-ochr yn agoriad swyddogol cae synthetig Waunfawr ar Fawrth 4ydd, a chawsant groeso yn y Ganolfan. Mwynhawyd gornest bêl-droed gyda thimau ysgolion eraill. Aelodau'r tîm oedd Siôn Emyr, Jonathan, Siôn Rhys, Philip, Matthew, Gethin a David.

Pnawn ddydd Llun, Mawrth 11, cafodd yr adran iau brawd difyr tu hwnt yn gwrando ar y cerddor Phillip Astle. Roedd ganddo gasgliad diddorol o offerynnau Tuduraidd a Stiwartiaid. Cafodd plant blynyddoedd 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau dawns o'r cyfnod Tuduraidd.

Cafodd aelodau blwyddyn 6 gyfle i ymweld ag Ysgol Brynrefail, ddydd Mawrth a dydd Iau, 12 a 14 Mawrth, gan ddilyn gwersi blwyddyn 7. Cawsant amser buddiol iawn yno.

Enillwyr Clwb Cyfeillion am fis Mawrth — £24: Eifion Griffiths (Bl.2); £12: Lyndsey Marie Roberts (Bl.4); £10: Sarah Scase (Bl.0); £5:

Dewi Meiron Jones (Bl.1); £4: Julie Hughes, 1 Cae Newydd.

Diolch: Dymuna Mrs Betty Peris Jones, Egryn Villa, Llanrug, ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli gŵr ffyddlon, Robert John. Hefyd diolchir am y cyfraniadau ariannol tuag at Ward Gwyrfa'i Ysbyty Bryn Seiont.

Dymuna hefyd ddiolch i'r ffyddloniaid a fu'n gofalu yn ddiflino am Bob yn ystod ei waeledd hir, sef meddygol teulu, nyrsus a gweinyddesau yr Adran Gymdeithasol a'r ysbytai. Diolch yn arbennig i'r ffrindiau a wnaeth ofalu am gludiant i Betty i'r ysbytai dros gyfnod hir.

Diolch am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ymgartefu yn ei chartref newydd yn 19 Hafan Elan.

Diolch: Dymuna Mrs L. Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob dymuniad da, mewn cardiau ac ymweliadau wedi iddi dderbyn llawdriniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Capel Hermon: Cynhaliwyd cyfarfod gweddi byd-eang y Chwiorydd ar Fawrth 1af. Paratowyd y rhaglen eleni gan Chwiorydd Haiti sef y wlad dlotaf yn yr hemisffer Gorllewinol. Ychydig iawn o ferched sydd yn byw yn hŷn na 55 oed, a dynion tua 50. Mae merched Haiti yn dioddef creulondeb a thrais dychrynlyd gan eu gormeswyr.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan amryw o chwiorydd yr ardal gyda Mrs W. O. Roberts yn arwain. Cafwyd anerchiad effeithiol, yn ei dull arbennig ei hun, ar y thema 'Duw'n ein galw i ymateb' gan Miss Megan Humphreys. Cyfeiriodd yn benodol at y 'modd y galwodd Duw ar bobl yn y Beibl, yn enwedig Jeremeia a Mair. Wrth wrando ar alwad Duw ac ymateb iddo rhaid i ni gofio am wledydd eraill sydd â phroblemau tebyg i rai Haiti.'

Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn gyda nifer dda o chwiorydd wedi dod at ei gilydd. Mrs Megan Roberts oedd wrth yr organ.

Llongyfarchiadau: i Michelle Louise Roberts, 13 oed am ddod yn fuddugol ar yr unawd Alaw Werin a'r Unawd Cerdd Dant 12 — 15 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd, Eryri. Pob lwc iddi yn Wrecsam.



Tîm dan 11 oed fu'n cystadlu yn Waunfawr yn ddiweddar.

Parhad o dudalen 8.

Ymhen munudau daethant at cilfan a throï i mewn ymysg cerbydau eraill. Rhoddodd hyn gyfle iddynt ddod allan o'r car i edrych yn fanylach ar eu hamgylchedd, ond eto ni allai yr un o'r ddau leoli llecyn yr helyg.

Aeth Dui o'r diwedd at ymyl bellaf y gilfan a gwelodd oddi tano beipen bridd lydan yn glafeirio dŵwr budr i wagle. Bu un gip ar honno yn ddigon iddo ddychwelyd i'r car a gorchymyn i Menti wneud yr un peth. Nid cynt nad oedd hi wedi rhoi clep ar y drws, na chythrodd Dui oddi yno, ac er iddi yn daer ofyn paham, ni chafodd ateb nes y cawsant gyfle i droi oddi ar y draffordd i lôn wledig ac aros. 'Roedden ni'n sefyll yn union ar y bedd,' meddai Dui.

Os syfrdanwyd Menti, ddanghosodd hi ddim. Roedd hi'n gafael yn dynnach yn ei thusw blodau, a dywedodd, 'Mi fydd yn rhaid i ti fynd yn ôl i mi gael gadael rhain.'

Ni wrthwynebodd Dui. Aethpwyd ymlaen nes cael cyfle i fynd o dan y draffordd i'r ochr arall, ond pan ddaethant gyferbyn â'r llecyn eilwaith, doedd yna yr un encilfan ar yr ochr honno i'r draffordd. Gorfodwyd Dui i droi ar yr 'ysgwydd galed' a chyn iddo cael cyfle i ddweud dim roedd Menti wedi mynd allan o'r car ac ar ei ffordd ar draws y draffordd. Gwaeddodd ei gŵr ar ei hôl, ond i ddim pwrpas.

Croesodd Menti i'r canol yn lled ddidrafferth, er fod y ceir yn canu arni yn gôr cymysg. Cafodd ei hynysu yno am hydion, a phrin y gallodd gyrraedd yr ochr bellaf gyda'i heinioes yn eiddo iddi. Gwelodd Dui hi'n rhoi'r blodau ar ganol yr encilfan; ac yna gwyllo ei chyfle i ddychwelyd, fel ymladdwr cyntefig o dan brawf y mil picellau. Llwyddodd o'r diwedd i ddod i'r canol, ymysg symffoni o udganu. Ac er hynny, yn eu cerbyn gwyn a'r golau yn fflachio, cyrhaeddodd eu hen gyfeillion.

Dau gwnstabl oedd y rhain hefyd, ond llawer ieuengach na'r lleill, ac yn amlwg yn chwilio am blu chwyth i'w capiau. Safasant i ddechrau yn dordyn a'u dwylo ar eu hochrau yn gwyllo Menti, yna daeth un at Dui a gofyn:

'Beth, er mwyn Duw, mae'r ddynes yna yn drio'i wneud?'

Ond roedd sylw Dui ar ei wraig. Ddywedodd o yr un gair nes y gwelodd hi yn cyrraedd y lan yn ddiogel, a phan ddaeth hi at y car yng nghwmni'r plisman arall, gofynnwyd yr un cwestiwn wedyn, y tro yma iddi hi.

Edrychodd ar Dui cyn ateb, ac yn eu llygaid roedd dealltwriaeth gynhenid eu hil:

'Mynd i chwilio am ddŵr,' meddai Menti. 'Mae'r injan yn poethi.'

'Poethi,' meddai'r plisman. 'Chdi fydd yn mynd i le poeth, jipo, wrth drio gwneud pethau clyfar fel'na. Ar eich taith! Mae 'na garej i lawr y ffordd yn gwerthu dŵr.'

Roedd wedi darganfod erbyn hynny gyda phwy yr oedd yn delio.

Buont yn ffodus i osgoi dirwy, ond arhosodd y plismyn i'w gwyllo yn mynd. Wrth ymadael, fedrai Menti ddim peidio â throï i gael y gip olaf ar y llecyn ar draws y ffordd. Ond gyda hynny gwelodd lori fawr yn troi i mewn yno gan wneud y tusw blodau yn bowltris.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Mr Ian Jones a ymwelodd â'r ysgol i sôn wrth y plant am ei daith i Lesotho.

Marwolaeth: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Hugh Gwilym Jones, Bod Elan, yn 73 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Joyce, a'i feibion Eifion ac Alan, a'u gwagedd Avril a Marie; hefyd a'r wyrion a'i wyresau Carys, Anest, Dewi a Gethin a fu mor annwyl a charedig wrthynt.

Adref o'r Ysbyty: Anfonwn ein cofion, gan ddymuno gwellhad buan, i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

Newyddion o'r Ysgol: Mae'n debyg mai'r newyddion pwysicaf yn ystod y mis oedd cael croesawu Keith Williams atom un prynhawn. Roedd pawb yn hynod o falch o'i weld — yn amlwg yn teimlo'n bur dda ac yn hwyliog dros ben. Fe fydd Keith rŵan, dros y chwe wythnos nesaf, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Clatterbridge. Dymunwn y gorau iddo ac edrychwn ymlaen i'w groesawu eto i'n plith.

Daeth Mrs Gwenno Bebb o Ysgol Brynrefail atom i drefnu ymweliad plant Blwyddyn 6 â'r ysgol honno. Cafodd y plant ddiwrnod yng nghwmni plant Blwyddyn 7 a chawsant flas ar fywyd yn yr Ysgol Uwchradd. Diolch i Mr Grisdale a'r staff am eu croeso.

Mwynhawyd bore anarferol iawn

yng nghwmni Mr Phillip Astle yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Aeth a ni yn ôl i gyfnod y Tuduriaid gan gyflwyno a chanu nifer o offerynnau hen iawn ynghyd â rhai modern. Cawsom hefyd weithdy dawnys o'r cyfnod gan y gŵr amryddawn hwn. Diolch o galon i Mrs Elisabeth Roberts a phlant Llanberis am ein gwahodd yno.

Daeth Mr Ian Jones, myfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Bangor, atom i sôn amei daith i Lesotho. Bu'n sgwrsio a dangos sleidiau i blant Bl. 3 a 4 sy'n gweithio ar y thema 'Fan Hyn — Fan Draw'. Drwy rannu ei brofiadau, llwyddodd i roi darlun byw a gwerthfawr iddynt o fywyd un o wledydd Affrica.

Treuliodd Miss Nia Hughes, Dolafon — eto o Brifysgol Bangor — gyfnod yn arsyllu yn Nosbarth Bl. 3 a4. Bydd Nia yn dychwelyd atom ar ôl y Pasg i wneud cyfnod o ymarfer dysgu. Edrychwn ymlaen am ei chwmni.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Chwefror oedd Mrs Luned Hughes, Hyfrydle, a Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon — y ddwy o Gwm-y-glo. Llongyfarchiadau iddynt.

Llongyfarchiadau i deulu Nadir a Zack ar enedigaeth brawd bach. Croeso mawr i Miles.

Adran yr Urdd: Daeth llwyddiant i

nifer o'r aelodau yng ngweithgareddau Celf a Chrefft Cylch Arfon — Gwobr 1af: Kevin Foulkes, Claire Pritchard, Michaela Radnor, Kate Ann Jones, a Grŵp Katie Pritchard. 2il wob: Arron Steele, Leigh Williams, Stephanie Williams, a Grŵp Kerry Lloyd. 3edd wob: Michael Jones, Brendan Davidson ac Alwyn Day.

Aeth eu gwaith ymlaen i Eisteddfod Sir Eryri a daeth pump gwobr i'r ysgol, sef: Kate Ann (1af); Michaela (1af); Alwyn Day (2il); Michael (1af) ac Arron (2il). Byddant yn cael eu beirniadu eto yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Maelor — hei lwc eto blantol!

Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch Arfon — Rhian Wyn Morris (3ydd llefaru); Parti Michael (2il llefaru); Dawnsio Gwerin (1af Parti Carys a Dylan; 2il Parti Karrah ac Arron). Carys, karrah ac Arwyn (1af am Grŵp Offerynnol); a Chor Amy (1af). Pob hwyl i bawb yn Eisteddfod Sir Eryri.

Carem ddiolch o galon i Mrs Bethanne Williams o Lanrug am roi o'i hamser i hyfforddi'r dawnswyr gwerin. Mae hi a'r plant wedi gweithio'n hynod o galed — ond yn sicr gyda mwynhad mawr.

Cynhaliwyd Noson Goffi tuag at Adran yr Urdd a charem ddiolch i bawb gefnogodd y weithgaredd ac a gyfrannodd tuag at y stondinau a'r raffl.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr DEINIOLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Bistro
LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwyng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partion rhwyng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro Nos Wener olaf bob mis

Wavell Roberts

CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

Gair gan Delyth

'DOLIG YN AWSTRALIA

Mae hi'n fis Chwefror bellach, a finna byth wedi sgwennu atoch i ddeud am fy helyntion yn y wlad *Down Under* dros gyfnod y Nadolig.

Lle i ddechrau, dyna'r broblem ynte! . . . Wel, dechreu a yn y dechra, yr hulpan wirion . . . felly dyma fynd yn ôl at ddiwrnod olaf y tymor yn yr ysgol, a finna dan annwyd trwm a dim awydd symud o gwbl! Pacio? Na, doedd gen i ddim awydd pacio hyd yn oed brwsh dannedd heb sôn am ddim arall. Oedd, roedd diwedd tymor prysur yn yr ysgol ar fin gorffen a'r cyngerdd (sori, *perfformiad!*) 'Dolig bondigrybwyll wedi dod i ben — a finna yn fflatnar wedi'r holl bwysau gwaith.

Dwi'n siŵr bod holl athrawon y fro acw yn deall yn iawn be dwi'n i ddeud, a pŵhawn arall yn deud, 'Dyna ni, dydi'r athrawon yma byth a beunydd yn cwyno am eu hystâd?!

Be 'nelo hyn i gyd a fy hanes yn Awstralia, medda chi? Wel, fel y soniais cynt, doedd gen i ddim awydd cychwyn a meddwl beth i'w pacio, felly pan gyrhaeddodd tasci Shell i'm nôl am bump y bore canlynol, doedd gen i ddim byd yn y cês, felly dyma luchio ambell ddilledyn hafaidd i'r bag, ac awê!

Cysgu yr holl ffordd i'r maes awyr, gwneud yn saff 'mod i ar y ffileit iawn, ac yna cysgu eto nes cyrraedd Perth, sydd ar ochr ddwyreiniol Awstralia.

Diolch fyth nad oeddwn yn trafaelio ar fy mhen fy hun gan nad oeddwn yn cofio enw'r gwesty roeddem i aros ynddo, felly, wedi cyrraedd y gwesty, penderfynu aros yno am ychydig o ddyddiau nes roeddwn i'n teimlo'n well.

Roeddem yn aros mewn tref o'r enw Freemantle sydd rhyw bymtheg milltir o Perth. Wedi deuddydd o orwedd wrth y pwll nofio, a chael fy nhendars, roedd i'n teimlo fel dynes newydd, felly dyma ddechrau byhafio fel *Tomi Twist* gan ymweld â'r golygfeydd a'r atyniadau lleol.

Mae Freemantle yn enwog am eu marchnad enfawr — ac am eu cwrw blasus! — ond roedd cael y dewis bendigedig o lefydd i fwyta gyda'r nos yn wyliau ynddo'i hun. 'Dach chi'n gweld, 'mond llond llaw o lefydd bwyta sydd acw ym Mrunei, ac wedi pedair blynedd o fwyta yn yr un llefydd, a bwyta yr un peth dro ar ôl tro, mae rhywun yn gwirioni pan yn gweld bwyta Eidalaidd, ac

yn y blaen — a'r prisiau yn rhesymol iawn o'i gymharu a'r hyd rydym ni'n gorfod ei dalu acw.

Roedd gennym bythefnos ar ôl yn y wlad. Felly, dyma logi *campervan* a threfnu math o daith o amgylch y lle. Roeddwn i'n gwybod fod Awstralia'n fawr ond, mam bach, mae'r lle yn A-N-F-E-R-T-H! Fe deithiom gyfanswm o dros fil o filltiroedd mewn pythefnos ond, o edrych ar y map, dydi'r holl filltiroedd a deithiom ni yn edrych bron yn ddim!

Wedi llenwi'r camperfan hefo bwyd maethlon — bisgedi, siocled, creision, a phob math o ddanteithion blasus eraill nad oeddwn wedi eu blasu ers yr haf — dyma gychwyn ar ein taith. Erbyn amser cinio cyrraedd pentref o'r enw Bullsbrook a mwynhau gweld y gwinllanoedd, gan ddysgu rhywfaint am y grefft a'r amynedd sydd ei eisiau i wneud yr holl winoedd.

Cyrraedd y pentref nesaf, sef Tooday, ac ymweld â ffermdy oedd yn gwneud eu Port eu hunain, gan ddarganfod wedyn fod ffrindiau'r ffarmwr a'i wraig wedi bod yn byw yn Brunei am bedair blynedd, ac fy mod i wedi dysgu un o'u meibion — byd bach!

Tra'n teithioo ar hyd y lonydd gwag gwelsom lawer o adar lliwgar, gan gynnwys y galah godidog, yn ogystal ag ambell gangarw er fod yn rhaid ichi fod yn sydyn iawn i weld un o'r creaduriaid hynod hyn, gan mor sydyn maent yn neidio o un lle i'r llall. Doeddwn i 'rioed o'r blaen wedi gweld cangarw ac, mae'n rhaid imi gyfaddef, maent yn llawer mwy o faint na'r syniad oedd gen i yn fy meddwl.

O amgylch pentref Pemberton, ymweld â'r holl fforestydd sy'n gartref i'r coed kauri a jarra, sef coed sy'n tyfu'n uchel iawn! Roedd cyfle i chi geisio dringo ambell un ohonynt ond gwell gen i oedd syllu arnynt a thrio gweld y canghennau uchaf o'r lle'r oeddwn i'n sefyll, diolch yn fawr!

Roedd siop grefftau ym mhentref Pemberton ac, mae'n rhaid imi gyfaddef, roeddwn wedi hoffi pob un darn o beth oedd ar werth yno! Crefftwaith coed go-iawn, ond â phrisiau y tu hwnt o uchel, ac fe ddois i o'r siop efo canhwylbren bren yn unig ond, os y byddai'n ennill y loteri rhyw ddydd, rhaid fydd

cael trip yn ôl i'r siop arbennig hon.

Cyrraedd tref glan y môr Albany gan fwynhau cerdded ar hyd y traethau gogidog ac ymweld ag amgueddfa fôr yno. Darganfod lle braf i chwarae golff efo neb arall ar y cwrs, felly cyfle ardderchog i ddysgu heb gael pobl yn cwyno eich bod yn ara' deg yn mynd o gwmpas y cwrs.

Oedd, roedd y tywydd wedi bod yn sych a gweddol heulog i ni hyd yn hyn, ond ar ôl wythnos o dywydd teg, dyma'r tywydd yn troi yn oer a gwlyb — tebyg iawn i lawer o'r hafau a gawn ni adre! Wrth gwrs, 'mond crysau-T a shorts oedd gen i efo fi ac felly rhaid oedd mynd i brynu dillad cynnes yn ogystal â chôt law!

Erbyn hynny roedd yn rhaid penderfynu ble i dreulio diwrnod Nadolig. Felly dyma deithio i Margaret River, tref fechan sydd wrth ymyl afon enfawr ac sydd hefyd yn agos iawn i draethau euraidd. Cael lle i aros mewn maes carafannau reit wrth geg yr afon, a mwynhau cerdded o amgylch y siopau, ac awyrgylch y Nadolig yn yr awyr. Rhaid dweud fod pob un o'r meysydd carafannau yr arhonon ni ynddynt yn lân iawn, a phawb yn barod iawn i ddod atoch i sgwrsio am hyn a'r llall.

Bore Nadolig: wrth gwrs roeddwn i wedi dod a'r holl anrhegion roeddwn i wedi eu derbyn gan fy rheulu a'm ffrindiau efo fi (heb eu hagar, wrth gwrs!) ac felly dyma gael eu hagar o'r diwedd, a hynny tra'n bwyta byns hefo menyn yn dew arnynt a phaned o goffi cryf . . . ffordd dda o ddechrau'r dydd . . . ac yna i ffordd â ni am ddiwrnod ar y traeth. Wrth lwc roedd yr haul yn gwenu arnom y diwrnod arbennig hwnnw. Darganfod traeth heb *neb* arno, a nofio am hydoedd cyn penderfynu ei bod hi'n amser paratoi'r cinio 'Dolig. Wel, am hwyl gawsom ni'n ceisio coginio prydyn Nadolig mewn camperfan mor fach. Er ei bod bron yn amser te erbyn cael popeth yn barod cawsom ginio gwerth chweil — gwell nag mewn unrhyw westy crand . . . a bron cystal â chinio 'Dolig Mam . . . ond nid cweit!

I orffen y diwrnod arbennig hwn, ffonio Mam a Dad adref i ddymuno Nadolig llawen iddynt ac i ddiolch am yr holl anrhegion. Roedd 'Dolig

Awstralia bron drosodd a 'Dolig yng Nghymru ond megis dechra!

Ar ein taith yn ôl tua Perth, penderfynu teithio y tro hwn i fyny'r arfordir gan ymweld â nifer o drefi bychan, diddorol ar y ffordd.

Buom yn nofio efo'r dolffins mewn un tref glan y môr; ymweld â hen oleudy enwog mewn tref arall; synnu ar ddewrder y syrffwyr mewn tref arall. Erbyn inni gyrraedd Perth roeddem wedi blasu llawer o gynnyrch y ffermdai lleol, yn enwedig eu merllys (*asparagus*) blasus. Cawsom hefyd gyfle i ymweld â fferm fêl, a chan fy mod yn hoff o fêdd, dyma gael blasu tipyn. Oedd, mi roedd o'n flasu iawn . . . ond dim hanner cystal â'r mêdd a geir yn Y Siop Goed yn Llanbêr!

Roedd gennym dridiau ar ôl bellach i fwynhau Perth. Na, doedd tridiau ddim digon, gan fy mod wedi disgyn mewn cariad â'r ddinas fechan hon. Roedd hi mor lân yno . . . dim sbwriel ar lawr yn unman. Roedd pawb mor barod i'ch helpu ac i eistedd i lawr i gael sgwrs fach hefo chi.

Rhaid oedd ymweld â King's Park tra yn Perth, sef parc enfawr sy'n llawn o flodau ac anifeiliaid gwyllt, a chael taith o amgylch y lle mewn tram hen-ffasiwn.

Ffarwewlio â gwlad yr Aborigini. Tristáu, a deud y gwir, fod dyn wedi cymryd drosodd y wlad brydferth yma . . . fel y gwnaethant mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

Cyrraedd Singapore ar Noson Calan gan aros yng ngwesty'r Sultan ar Orchard Road — a thalu crobris — gan fod y gwestai yn llawn gan gofio pa noson o'r flwyddyn oedd hi!

Treulio diwrnod yn siopa yn Singapore cyn teithio'n ôl i Brunei i ddechrau tymor newydd o waith yn yr Academi!

Hwyrach ei bod hi braidd yn hwyr i wneud hyn ond, tae waeth, gwell hwyr na hwyrach, felly — Blwyddyn Newydd Dda i bawb adref yn yr henwlad.

Hwyl fawr,
DELYTH x x x

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Enillwyr Clwb 100 mis Mawrth yr Ysgol Gynradd: £20: Gwilym Williams, 20 Y Ddôl; £15: Dewi Wyn, Cenarth; £10: Mair Evans, d/o 3 Bro Eglwys; £7: Lillian Williams, Seion; £5: Lowri Prys Roberts Williams, Brynrefail. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr: Croesawyd y Parchg Harri Parri gan y llywydd, Mrs Gwyneth Jones, i gyfarfod, Mrs Mawrth y gangen a gynhaliwyd yn y Split Willow, Llanfairfechan, i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd sgwrs ddiddorol am ein nawddsant, a diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Alys Jones.

Llongyfarchwyd y canlynol — Mrs Elisabeth Evans, ar fod yn nain; Band Brynrefail; Dewi a Huw, Meilir a Bethan, Ffion a Lois, a Huw Foulkes ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.

Diolchwyd i Mrs Eirlys Sharpe am gymryd y gwaith ddisgrifnydd yn ystod y misoedd ysgrifathaf.

Enillwyr y rafflau oedd Mrs Anne Elis, Mrs Bet Owen, Mrs Sheila Roberts a Mrs June Owen.

Bu nifer o'i aelodau yn Seiont Manor nos lau, 21 Mawrth, mewn Dioe Ffasiynau arbennig iawn. Sogswyd dillad a'u model gan aelodau dosbarthiadau nos Mrs Megan Williams, Trefor. Gwelwyd nifer fawr o ddillad a'u gwnaed dros fisoedd y gaeaf. Iddiweddau'r noson gwelwyd rhai o ddilladau priodas a wnaed gan Mrs Williams. Diolchwyd i Mrs Williams a'r gwagedd gan Mrs Rhianwen Hughes, Mrs Rowlands, Y Ddôl; Teulu Tŷ'r Ysgol; A. E. Williams, Tŷ Newydd a Lynne Lewis, Y Ddôl.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Fawrth, 5 Mawrth, cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi diwedd tymor y gymdeithas yn Nhŷ Golchi. Croesawyd y gŵr gwadd, Mr Geraint Lloyd Owen, gan y llywydd, Llinos Wyn. Cafwyd sgwrs hwyliog am ddefnyddio dychymyg wrth farddoni. Rhoddodd lawer o enghreifftiau i ni feddwl amdanynt.

Newyddion o'r Ysgol: Prynhawn Mawrth, y 5ed o Fawrth, daeth nifer o Glwb Bro Bethel i gael cyngerdd a the Gŵyl Ddewi yn yr ysgol. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan ddisgyblion Blwyddyn 6 a diddanwyd yr aelodau mewn cân, dawns a drama gan holl blant yr ysgol. Diolchwyd i Mr Pierce, yr athrawon a'r holl blant yr ysgol ar ran

y Clwb gan y Parchg Gwynfor Williams.

Nos Fercher, 19 Mawrth, cafwyd noson o Bingo yn yr ysgol a drefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Cafwyd noson hwyliog iawn gyda Mrs Siân Jones yn galw'r rhifau yn broffesiynol iawn! Croesawyd pawb i'r noson a diolchwyd am y gefnogaeth gan Mr Gwynfor Williams yr is-lywydd. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu haelioni yn rhoi'r holl wobrau ar y noson.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Evans, Blaen Parc, ar fod yn daid a nain unwaith eto a dymuniadau gorau i Siôn Arwel.

Diolch: Dymuna Michael a Shân Pollard, 102 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni, ddiolch i'w teulu a'u cyfeillion yn yr ardal am y caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur genedigaelth Siôn Arweel ar y 19 Chwefror. Diolch am yr anrhegion, cardiau a'r galwadau ffôn. Llauer o ddiolch i staff Uned Geni ac Adran Gofal Arbennig Babanod Ysbyty Gwynedd, bydwagedd lleol a'r staff ambiwlans am eu gofal caredig.

Yr Urdd: Cynhaliwyd Nodd Goffi lwyddiannus yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar, gyda phlant y Gangen yn cymryd rhan, cyn iddynt gystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Cyflwynwyd yr eitemau gan Mair Read a hithau hefyd a ddiolchodd i Siân Harris a Glenys Griffiths am bartaoi rhai o'r cystadlaethau. Rhoddwyd tocynnau anrheg i'r ddwy am eu llafur. Enillwyr y raffl oedd Nan Rowlands, Y Ddôl; Teulu Tŷ'r Ysgol; A. E. Williams, Tŷ Newydd a Lynne Lewis, Y Ddôl.

Yn yr Eisteddfod Cylch, a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail, lleolwyd y canlynol: Parti Dawnsio Gwerin, 3ydd; Parti Cerdd Dant, 3ydd; Huw Ffoulkes, canu, 3ydd; Côr yr Adran, 2il; Ymgom Ffion a Lois, 2il; Ymgom Gwion a Ffion, 1af. Yn yr Adran Celf a Chrefft bu Marged ac Elan Rhys yn llwyddianus hefyd.

Bellach mae gweithgareddau wythnosol y Gangen wedi dirwya i ben, a hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r rhai a fu'n goruchwyllo yn y cyfarfodydd. Mae llwyddiant wedi dod, mewn gwahanol feysydd, i nifer o aelodau'r Gangen a cheir gwybodaeth llawer a'r ymys yn nesaf. Mae

nifer o'r aelodau yn edrych ymlaen am benwythnos yng Nghlan-llyn ddiwedd y mis — gobeithio y bydd y tywydd yn braf. Cawn glywed yr hanes y tro nesaf.

Ocsiwn yr Ysgol Feithrin: Nos Wener, Ebrill 19, am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa, cynhelir Ocsiwn yr Ysgol Feithrin. Yr ocsiwniar yw Hywel Gwynfryn a'r pris mynediad fydd 50c a hynny'n cynnwys paned. Dyma restr o'r rhan fwyaf o'r nwyddau amrywiol y bydd modd cynnig amdanynt ar y noson: 1, dwy Aloma i ddau blackpool; 2, Pêl-droed wedi'i llofnodi gan dîm pêl-droed Everton; 3, Pryd o fwyd i ddau yng Ngwesty Ty'n Rhos; 4, Trip i ddau am y diwrnod i Efrog (Seren Arian); 5, Print o 'Cwm Pennant' a 'Taid a Gwenno yn y Lôn Goed' gan Steven Jones; 6, Pryd o fwyd hyd at £20 yn y Gandhi, Caernarfon; 7, Bowlio-deg i deulu o 4; 8, Potel o chwisi; 9, dau docyn teulu i Pili Palas; 10, Pryd o fwyd i ddau yn y Gors Bach; 11, MoT gan Ceir Cymru; 12, Beic Ymarfer; 13, Trefniant o flodau sych; 14, rownd o golff i ddau yng Nghlwb Golff Caernarfon; 15, gwrs golff ym Maes Ymarfer Golff, Treborth; 16, llety a chwrs i ddau yn Nant Gwrtheyrn; 17, tri sesiwn ar wely haul; 18, pysgodyn a sgolodion i 4 yn Siop Chips Bethel; 19, bwji gan Gwilym Jones, Y Post, Bethel; 20, tocynnau i weld ffilm yn y Plaza, Bangor; 21, crys pêl-droed tîm Bangor i blentyn; 22, cludo dau i Gaer; 23, cludo dau i Landudno; 24, tocyn teulu i Sŵ Môr Môn; 25, Tocynnau i Sŵ Caer; 26, Fideo C'wmon Midffild; 27, tocyn cig gwerth £20 (Hughes Meats); 28, tocyn £30 Cwmni Bysiau Arfon; 29, newid olew car gan gwmni Ceir Seiont; 30, pryd o fwyd i ddau hyd at £20 yn Taylor's, Bae Colwyn; 31,

6 tocyn bwyd McDonalds; 32, addurn bwrdd wedi'i grosio; 33, trefniant o flodau ffres; 34, ffrâm llun o Barnard's, Llandudno; 35, tocynnau i'r Sŵ Fynyddig, Bae Colwyn; 36, tocyn £10 ym Mwyty'r Bull, Pentraeth; 37, tocyn golchi car yn Safeway; 38, beic i blentyn 1-3 oed; 39, bwrdd dal teledu a fideo; 40, tongs gwallt gan Elaine, Llanrug; 41, tocynnau rheilffordd Conwy; 42, tocyn £15 Burtons; 43, 'Make Over' a bag o samplau 'Clinique'; 44, Potel o win; 45, trin gwallt i fam a dau o blant; 46, shawl; 47, gwnio paentio wyneb mewn parti pen-blwydd; 49, hampar bwyd a gwin; 50, plant blodau (Flower Centre, Bangor); 51, bag o fwyd ci (Fachell); 52, rhodd gan Hywel Gwynfryn; 53, tocyn petrol £10 (Beran); 54, tocynnau i weld cynhyrchiad neu ffilm yn Theatr Gwynedd; 55, Cacen pen-blwydd wedi'i haddurno; 56, olew car (Ivor Jones, Llangefni); 57, tocynnau i ddau (am hanner pris) i gopa'r Wyddfa; 58, teipio hyd at 10 tudalen o A4; 59, tocyn am 5 sesiwn i riant a phlentyn yng Ngharnafon Hamdden Caernarfon; 60, Rhodd gan Billy ac Ann Hughes, Siop Treflyn.

Cyhoeddir rhestr bellach o roddion ac addewidion yn rhaglen yr Ocsiwn. **Enillwyr Clwb 200 y Neuadd mis Chwefror** — £20: Mrs Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn (77); £10: Mrs Catrin Hughes, 32 Bro Rhos (63); £5 yr un: Mr Emllyn Hughes, Bethlyn (58); Mrs Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Mr Gwynfor Ellis, 5 Rhos-lan (74); Mrs Gwyneth Jones, Fachell (72); Mrs Elinor W. Jones, 22 Cremlyn (139); Mrs Ann Mercer, Roslyn (165); Miss Nia Ll. Griffiths, Glan Dŵr (197); Mr Alwynne M. Jones, 10 Y Ddôl (159).

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: (01286)
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petril neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Y Groglith: Cynhelir gwasanaeth Cymundeb fore'r Groglith, Ebrill 5, yn festri Capel Coch am 10 or gloch. Estynnir croeso i aelodau capeli eraill y pentref i ymuno ag aelodau Capel Coch yn y gwasanaeth eleni eto.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon: Mae Pwyllgor Apêl Llanberis yn prysuro at y nod ariannol a osodwyd ar ei gyfer. Cofiwch mai'r peth nesaf a gynhelir yw'r Cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn, am 8 o'r gloch, nos Sul y Pasg, Ebrill 7. Edrychir ymlaen at groesawu Côr Godre'r Garth dan arweiniad Wil Morus Jones. Mrs Alice Eileen Williams fydd llywydd y noson. Mae tocynnau ar gael am £2.50 i oedolion a £1 i blant. Croeso cynnes i bawb.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr mis Mawrth oedd — £35: Mrs H. Williams, Rhes Efrog (114); £25: Mrs N. Jones, 1 Preswylfa (44); £15: Mrs E. Jones, Coed y Ddôl (35); £10: Mr G. Jones, Stryd yr Wyddfa (75); £5: Mrs E. Evans, Craigwel (53).

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos lau, Chwefror 22, yn Eglwys St. Padarn. Fel arfer dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mr Ralph Jones. Croesawyd yr aelodau a'r gŵr gwadd — Dr Eruwyn Lloyd-Evans, gynt o Derlwyn, Stryd Fawr — gan y cadeirydd Mrs Ann Parry-Jones. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni yn rhoi tipyn o hanes hen dref Caernarfon — o'i chychwyniad cyn Crist, drwy deyrnasiad y Rhufeiniaid hyd y cyfnod presennol. Yn ddiweddglo i'w sgwrs eglurodd y cynllun sydd ar y gweill i agor y twnnel o dan yr hen dref. Diolchwyd iddo ef ac i'r merched fu'n gofalu am y lluniaueth, sef Mrs Gracie Roberts a Mrs Margaret Griffith, gan Mrs Jean Roberts. Mrs Beryl Owen oedd yn enillydd y raffl y mis yma.

Cydymdeimlwyd â Miss Nancy Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar, a dymunwyd adferiad buan i Mrs Kathleen Williams ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty, ac i lawer o'r aelodau oedd wedi bod yn wael yn eu cartrefi.

Dathlwyd gŵyl ein nawddsant gyda chinio yng Ngwesty Fictoria, nos Fawrth, Mawrth 5, gyda Mr Iolo Huws-Roberts yn ŵr gwadd.

Cafwyd noson hynod ddiddorol yn ei gwmni, a'i bwnc 'R'ym ni yma o hyd,' yn amserol iawn.


Undeb y Mamau: Pnawn dydd Mawrth, 5 Mawrth, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn festri Eglwys Sant Padarn. Cafwyd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, ac yn dilyn cafwyd Cyfarfod Cyffredinol blynyddol, a ohirwyd o fis Chwefror oherwydd y tywydd garw. Etholwyd swyddogion am y flwyddyn fel a ganlyn — Ysgrifennydd aelodaeth: Mrs Dilys Phillips; Trysoryddes: Mrs Betty Humphreys; Ysgrifennydd: Mrs Audrey Evans; a derbyniwyd y swyddi gan y dair.

Estynnwyd ein cydymdeimlad llwyr i deulu y diweddar John Rees Jones, Llecyn Clyd, Blaen y Ddôl. Dymunwyd gwellhad buan i sawl aelod o'r Eglwys sydd ar hyn o bryd heb fod yn mwynhau iechyd rhy dda.

Talwyd y diolchiadau i'r Rheithor am ei weinidogaeth a'i arweiniad; i Audrey a Muriel am ofalu am y lluniaueth; gan Mrs Betty Williams gyda Mrs Kathleen Williams yn eilio. Enillydd y raffl oedd Mrs Betty Williams.

Dydd Gwedd: Cynhaliwyd Dydd Gwedd Byd-eang y Chwirydd yng Nghapel Coch, nos Wener, Mawrth 1. Roedd y deunydd addoli a ddefnyddiwyd eleni wedi cael ei lunio gan ferched o Haiti. Cymerwyd rhan gan aelodau o Nant Padarn, Jerwsalem, Capel Coch, Eglwys Sant Padarn a Sant Peris. Roedd yn braf gweld wyth o blant yn y gwasnaeth hefyd.

Cyngerdd: Cynhaliwyd noson Cawl a Chân yn festri Capel Coch, nos lau, Mawrth 14. Trefnwyd y noson gan Lleisiau Lliwedd, ac aelodau'r côr a fu'n paratoi'r cawl ar gyfer y gynulleidfa. Yn ogystal ag eitemau gan Lleisiau Lliwedd eu hunain, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a Mr Gareth Jones, cymerwyd rhan gan Mari Wyn, Claudette a Ffion o Lanberis; ac Elfed Morris o Ddeiniolen. Cafwyd eitemau offerynnol gan rai o blant Ysgol Dolbadarn, Louise, Steven, Gwen a John Paul; a chanodd côr dosbarth hynaf yr Ysgol dan arweiniad Mrs Lisabeth Roberts, y brifathrawes. Mrs Helen Sharpe oedd yn arwain y noson. Rhoddwyd elw'r noson i



**'Mae rhywbeth bach yn poeni pawb
Gan gynnwys ein doctoriaid;
A'r hyn sy'n poeni'r doctor hwn
Yw gardd yn llawn o ddefaid.'**

Ond beth yw cyfrinach meddyg newydd y ddafad wylt tua Llanberis?

Gronfa Keith Williams, Cwm-y-glo, ac estynnwyd croeso i'w fam, Mrs Margaret Williams, i'r cyngerdd ac anfonwyd cofion cynnes at Keith.

Ysgol Dolbadarn: Mae plant hynaf yr Ysgol wedi bod yn brysur yn cyhoeddi cylchgrawn newydd yn ddiweddar. Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Dolbadarn* ddechrau mis Mawrth, a bu gwerthu da arno yn yr Ysgol. Mae'n cynnwys newyddion, tudalennau ffasiwn a chwaraeon, straeon, sribed comic a chystadleuaeth. O fewn pythefnos i gyhoeddi'r rhifyn cyntaf roedd yr ail rif yn barod. Penderfynodd y plant drosglwyddo'r elw a wneir o werthu'r rhifynnau cyntaf i Gronfa Keith Williams, Cwm-y-glo. Anfonwn ein cofion gorau eto at Mrs Nan Humphreys; brysiwch wella yw neges y plant a'r holl staff.

Y Gymdeithas Undebol: Daeth tymor y Gymdeithas i ben nos Fawrth, Mawrth 19, gyda'r swper blynyddol a gynhaliwyd eleni yn Y Bistro. Daeth oddeutu deg ar hugain ynghyd i fwynhau'r wledd o swper. Y gŵr gwadd oedd Mr Guto Roberts, Y Groeslon, a chroesawyd ef a Mrs Roberts gan y llywydd, y Parchg John Pritchard. Cafyd gan Guto Roberts ddarlith ddiddorol a bywiog ar deulu dawnus John Lloyd Williams, a fu'n brifathro yng Ngarn-dolbenmaen ac oedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Diolchwyd gan Mr John Hugh Hughes. Penderfynwyd cynnal gwibdaith yn ystod yr haf, a

chaiff y trefniadau eu cyhoeddi maes o law. Bydd pwyllgor yn mynd ati'n fuan i drefnu rhaglen lawn ar gyfer y tymor nesaf y Gymdeithas. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i weithgareddau'r Gymdeithas dros y gaeaf, a diolch yn arbennig i'r ysgrifennydd, Mr Gareth Jones, a'r drysoryddes, Mrs Helen Morris, am eu gwaith.

Clwb yr Henoed: Cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi'r Clwb yng Ngwesty Fictoria, ddydd lau, Mawrth 7. Diolch am yr holl drefniadau.

Eisteddfod Llanberis: Os nad ydych wedi cael eich copi o Restr Testunau a Rhaglen yr Eisteddfod mynnwch eich copi ar unwaith gan unrhyw un o aelodau'r pwyllgor. Trefnwyd dwy noson ar gyfer y gwaith ysgrifenedig a'r gwaith celf. Bydd cyfle i'r plant a'r ieuenctid gymryd rhan yn y gystadleuaeth Rhyddiaith ddydd Mawrth, Ebrill 23, ac yn y gystadleuaeth Celf ddydd Mawrth, Ebrill 30. Yn festri Capel Coch y cynhelir y cystadlaethau, a byddwn yn dechrau yn union wedi i'r plant ddod o'r ysgol. Dylai disgyblion Ysgol Brynrefail ddod yno ar eu hunion o'r ysgol hefyd. Cofiwch mai'r dyddiad cau ar gyfer yr ymdrechion yn yr Adran Lenyddiaeth yw Mai 4.

Mae un camgymeriad yn y Rhestr Testunau — llinell gyntaf y limbrig yw: 'Mae'r dyn 'cw'n fy NGYRRU i'n wirion'.

Gyda llaw, Mrs Mair Roberts, Dinas, Llanwnda, yw llywydd yr Eisteddfod eleni.

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim




**(01286) 671181
(0831) 326160**



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

**Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher**

Marwolaeth: Bu farw John Rees Jones, Llecyn Clyd, 3 Blaen y Ddôl, fore Sul, chweffror 18, yn 75 mlwydd oed, wedi gwaieidd byr a ddiodeffodd â dewrder ac urddas yn Ysbyty Gwynedd.

Priod annwyl Eirlys ydoedd a thad cariadus Owen Rees. A'r teulu ond newydd symud i fyw i'w cartref newydd rhai misoedd yn ôl, i'r tŷ lle cafodd John ei eni a'i fagu, dim ond ychydig o wythnosau prin a gafodd yno er mai ei ddymuniad oedd cael dychwelyd i'w hen gartref.

Dechreuodd ei yrfa yn Chwarel Dinorwig ac wedyn yn Rheilffordd yr Wyddfa, ac o hynny hyd ei ymddeoliad gweithiod gydag Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Gwynedd.

Roedd John nid yn unig yn briod a thad, brawd ac ewythr ac yn ffrinda da ond roedd o hefyd yn foneddwr a bydd colled fawr ar ei ôl. Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Padarn Llanberis ac yno y cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol, ddydd Iau, 22 Chweffror, gyda'r Parchg Philip Hughes, y Parchg Olaf Davies a Mr Derek Jones yn gwasanaethu. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar John Rees Jones, Llecyn Clyd, 3 Blaen y Ddôl, ddatgan eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad diffuant i'r holl deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad; y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, a'r blodau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli priod, tad ac ewythr annwyl iawn. Diolch i'r meddygon am eu gofal ohono ar gydol y blynyddoedd, ac i ferched a nyrsus Canolfan Iechyd Llanberis. Diolch yn arbennig i staff Ward Aran, Ysbyty Gwynedd; Ward Peris, Ysbyty Eryri; Matron a staff Plas Pengwaith, am eu caredigrwydd a'u gofal am John.

Diolch hefyd i'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, y Parchg Olaf Davies, a Mr Derek Jones, am bob cymorth a gawsant ar adeg mor drist. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau angladd trylwyr. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Eirlys ddiolch hefyd i bawb am eu caredigrwydd iddi tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i Owen am ei garedigrwydd i ni'n dau.

Diolch: Dymuna Aled Wyn Hughes, Tan Dderwen, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ar Chweffror 26.

Diolch: Dymuna Delyth a Selyf Hughes, Tan Dderwen, ddiolch yn gynnes iawn i'w plant, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur o ddathlu eu priodas rhuddem yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Mrs Muriel Morris ddiolch yn ddiffuant i bawb am y caredigrwydd, galwadau ffôn ac ymweliad yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl ei dychweliad gartref.

Diolch o galon i bawb.

DEINIOLLEN

Atodiad

Y SEINDORF: Clwb 200 Ionawr £25: Barry Price; £15: Barry Price; £10: E.W. Williams.

Clwb 200 Chweffror £25: Sian Sullens; £15: J.P. Roberts; £10: G. Morris

YR URDD: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd

Unawd Prês 12-15: 1. Jennie Lyn Morris; 2. Arwel Williams. **Adrodd 12-15:** 2. Alaw Mari Huws. **Unawd Bechgyn 12-15:** 1. Elfed Morgan Morris. **Grŵp Offerynnol 12-15:** Jennie Lyn Morris, Arwel Williams, Urien Sion Huws, Gethin Williams. Enillodd Adran Deiniolen Darian am yr adran gyda mwyaf o farciau yn yr oedran.

Cerdd Dant dan 12 oed: 2. Trystan Morris. **Adrodd dan 12 oed:** 3. Trystan Morris.

Llongyfarchiadau arbennig i Jennie ac Elfed ar ennill ar yr Unawd Prês a'r Unawd Bechgyn. Hefyd i'r Grŵp Offerynnol ar ennill yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc iddynt yn y Genedlaethol.

Diolch: Dymuna Mr John Pritchard, Rhydfadog, Deiniolen ddiolch i bawb o'r meddygon a'r nyrsus ar wardiau Aran a Hebog am y gofal a dderbyniodd tra yn eu gofal yn ddiweddar.

Diolch hefyd i'r teulu a'r ffrindiau oll am y cardiau a'r galwadau ffôn ac i bawb a fu'n ymweld ag o tra bu'n wael. Diolch o galon i bawb.

Diolch: Dymuna Alun a Kathleen, 39 Pennant, Llangefni ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli modryb annwyl, sef Jennie Williams (Anti Jini), gynt o 9 New Street, Deiniolen. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard

NANT PERIS


Elwyn Searell Jones, Dwyfor. Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH: Dymuna Selina Morris, Gardda Bach ddiolch o galon i'm teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac am yr holl anrhegion a dderbynias ar fy

mhen-blwydd arbennig.

Diolch hefyd i bawb am eu caredigrwydd tuag ataf ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.



Mr Dafydd Pritchard (Cadeirydd); Mr Stanley Morgan (Trysorydd) yn cyflwyno, ar ran Pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch, y swm o £400 i Dr Huw Roberts, Dr Alwyn Parry a Mrs Edythe Jones, cynrychiolwyr Nyrsus Ardal plwyfi Llanberis, Llanddeiniolen, Llandinorwig a Llanrug. Elw Treialon 1995 oedd yr arian hwn.



Aelodau y grŵp offerynnol buddugol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, gyda rhai o'u cefnogwyr brwd o Seindorf Deiniolen.

am ei wasanaeth ddydd yr angladd, i swyddogion Capel Ebeneser am eu cymorth parod ac i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu

trefniadau trylwyr. Diolch o galon hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gartrefi Plas Penlan a Glan Rhos.

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545



ORIEL
PLAS
GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

ERIC
JONES
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

GERAINT
OWEN

Gosodwr carpedi
a phob math
o loriau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286)
650552

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Yr Ysgol Gymuned yn dathlu Gŵyl Ddewi

Ysgol Gymuned: Ychydig amser yn ôl daeth Mr Ifan Jones draw i'r ysgol i siarad gyda dosbarth Miss Jên Jones am ei ddyddiau gwaith yn y chwarel. I ddilyn cafodd y plant gyfle i ymweld â Dinorwig er mwyn cael gweld yr hyn a fu yn y chwarel, lle'n awr sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan. Bu'n ymweliad difyr ac fe fu'r plant yn brysur yn dylunio gwaith technoleg i ddilyn er mwyn recordio eu hymweliad.

Arbenigo mewn cerdd a dawns o gyfnod y Tuduriaid mae Mr Philip Astle. Daeth draw i'r ysgol i dreulio bore er mwyn dangos detholiad o offerynnau diddorol iawn o'r cyfnod hwnnw i'r plant. Yn ogystal â gwrandao ar Philip yn eu chwarae cafodd nifer o'r plant gyfle i gael cynnig eu hunain. I ddilyn cafodd y plant gyfle i brofi gwahanol ddawnsfeydd o'r cyfnod hefyd. Diolch i Philip am fore arbennig o ddifyr.

Ychydig ddyddiau cyn y gwyliau, fel rhan o'r broses drosglwyddo, bu Blwyddyn 6 yn treulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail, a bu'n brofiad diddorol iawn i'r naw ohonynt. Diolchir i Mr Grisdale a'i staff am estyn y gwahoddiad i'r plant ac am eu gofal ohonynt.

Urdd Adran Bantref: Bu'r aelodau yn hynod o brysur yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd. Dyma'r canlyniadau — Eisteddfod Cylch 12-15 oed: Unawd chwythbrennau — Erin Eifion ymlaen i'r Sir; Eisteddfod Cylch dan 12 oed: Unawd Alaw Werin — Cerin Eifion ymlaen i'r Sir. Parti Canu Sioned Alaw: ail; Côr Adran: pedwerydd.

Bu'r canlynol yn llwyddiannus gyda gweithgareddau Celf a Chrefft, a'r cyfan ymlaen i'r Sir: Grŵp Heledd, Catrin, Manon Cadi a Melanie, 1af; Grŵp Erin, Rachel a Nia, 1af; Grŵp Gavin, Iwan, 2il; Unigolion: Rhys, 1af; Erin, 2il; Anest, 2il; Haydn, 2il; Jenny, 3ydd; Rachel, 3ydd.

Y mae'r canlynol ymlaen i'r Genedlaethol — Ffotograffiaeth 10-12 oed: 1, Rhys; Gemwaith 12-15 oed: 2, Erin.

Llongyferchir pawb a diolchir i'r rhai fu'n cynorthwyo a hyfforddi'r aelodau.

Bydd rhai aelodau blwyddyn 5 a 6 yn treulio penwythnos yng Ngwersyll Glan-llyn, 26-29 Ebrill. Gobeithio y bydd y tywydd yn braf ac y byddwch yn cael amser i'w gofio.

I gloi gweithgareddau wythnosol yr Adran trefnwyd trip i Ganolfan 18

Hamdden Plas Silyn, ym Mhen-y-groes, nos Fawrth 26 Mawrth. Roedd pawb wedi cael amser bendigedig yn sgilefr-rowlio. Diolchir i bawb a ddaeth i ofalu am y plant. Diolchir hefyd i'r aelodau am eu ffyddlondeb drwy'r flwyddyn ac i'r swyddogion a'r gwirfoddolwyr am drefnu rhaglen amrywiol a diddorol.

Gwellhad: Deallir fod Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, yn gwella. Anfonir cofion annwyl ati. Balch o ddeall fod Mr Edwards, Llys y Gwynt, wedi gwella wedi'i driniaeth yn yr ysbyty; a da clywed fod Mrs Edwards yn gwella yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir cofion annwyl at bawb arall sy'n sâl yn y pentref — brysiwch wella i gyd.

Cadw'n Heini: Cynhelir dosbarthiadau Cadw'n Heini bob nos lau o 8 hyd 9 p.m. yn y Neuadd Gymuned. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb.

Llongyfarchiadau i Elwyn ac Elinor Williams, Bryn Rhydd Mawr, ar achlysur eu Priodas Arian ar 13 Mawrth.

Llongyfarchiadau a phob bendith i ti, Llion Roberts, Tai Croesion, ar achlysur dy ben-blwydd yn 18 oed ar 31 Mawrth. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr Andy Tomlinson, Cartref, ar golli ei fam yn ddiweddar. ein cydymdeimlad llwyrfa hefyd â Nant, Tegid a'r hogia ar farwolaeth mam Nant.

Pwyllgor Rheoli'r Neuadd: Sefydlwyd y pwyllgor nos Lun, 26 Chwefror, am 7 o'r gloch. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn — Cadeirydd: Phyllis Elis; Is-gadeirydd: Eifion Harding; Ysgrifenyddion: Leslie Larsen ac Ann Ifans; Trysorydd: Dafydd Williams. Cynrychiolir y Llywodraethwyr gan David Philips; Pwyllgor Cymuned gan Aled Green a Chyngor Arfon gan Pat Larsem. Cyfetholwyd rhai o'r Pwyllgor Neuadd gwreiddiol ynghyd â Myrddin Jones, Brynrefail, ac un aelod o gymdeithasau gwirfoddol sy'n defnyddio'r ganolfan.

Gweithgaredd cyntaf y pwyllgor newydd fydd 'Hwyl y Pasg' gydag amrywiol weithgareddau ar nos lau, 28 Mawrth, yn y Neuadd Gymuned am 6 o'r gloch. Y beirniaid eleni fydd Ceren ac Aled Jones, Bontnewydd (Bryn Eglwys gynt). Bu Ceren yn aelod gweithgar dros ben o'r Pwyllgor Neuadd. Edrychir ymlaen am eu cwmni ynghyd â Guto Siôn.

Clwb Cant: Tynnwyd Clwb Cant mis Chwefror yn Sycharth, a'r enillwyr

Yn syml — ATHRYLITH

Mae rhywbeth yn unigryw am dîm Manchester United — un ai rydych yn eu cefnogi neu rydych yn eu casáu. Y mae llawer o'u gwrthwynebwyr yn cyfeirio at ddylanwad emosiynol trychineb Miwnic. Mae hyn yn amlwg yn wir am fy nghenedlaeth i. Yn wir, dyma rhyw gerdd a ysgrifennais ar gyfer rhyw dalwrn:

Y Tîm

Yno, rwy'n byw a bod
A'm meddwl yn Old Trafford.
Yn niwl fy ieuencid,
Dyma dim na gafodd stid.
Fel 'babis' cant eu cofio
Ond 'dynion' yn eu herio.
Yr ifanc, dalentog lu
Dan ofal tadol Busby.
Edwards, gryf a'r doniau rhwydd
Ac yntau ond ugeinmlwydd.
Taylor, colier a fu
Yn ceibio gols a'i benddu.
Ergyd fel magnel o danc
Gan Charlton walltog ifanc.
Foulkes yn cloi'r amddiffyn
Tawel wr, ond cawr o ddyn.
Scanlon, Morgan, Pegg a Violet
Wood a Byrne — anfarwol set.
Daw dagrau dros linellau slic
Daeth diwedd, fe ddaeth Miwnic.

Fel y gŵyr nifer o'r darllenwyr, chwaraewr a gwyliwr y cynghreiriau lleol fûm i erioed. Nid oedd mynd i gemau mawr yn apelio — yn wir ychydig o gyfle a gawn. Felly, dilyn Man Utd o bell y bûm erioed — er rhaid cyfaddef mai Denis Law oedd fy arwr. Buasai'n dda i Man Utd ei gael ar hyn o bryd, o gofio'r tymor trychinebus mae Cole yn ei gael o flaen y gôl.

Yr wythnos ddiwethaf roeddwn fel hogyn bach. Cefais docyn i weld y gêm gartref yn erbyn yr Arsenal. Dau dîm yn gyfuriog o chwaraewyr rhyngwladol, a pwysedd aruthrol ar y tîm cartref tra'n ymgiprys am y bencampwriaeth. Ni fûm yn Old Trafford ers rhyw 8 mlynedd. Yn bendant erbyn heddiw, dyma wir

lwcus oedd — 1, G. Williams, Trem Cynfi; 2, Elwyn Williams, Bryn Rhydd; 3, Ann Jones, Ty'n Gerddi. Y mae Leslie Larsen yn fodlon derbyn arian Clwb Cant yn fisol i'w trosglwyddo i'r Trysorydd, Dafydd Williams. Tynnir Clwb Cant mis Mawrth yn y Neuadd Gymuned, 28 Mawrth.

Ysgol Sul Undebol Bosra: Wedi bwrllwm Eisteddfodau'r Urdd y mae'r plant ym mwrlwm y cymanfaeodd rŵan. Mant wrthi'n ddiwyd yn dysgu'u rhannau ar gyfer Cymanfa'r Annibynnwyr a gynhelir eleni ym Mosra ar Sul, 21 Ebrill, gyda Chymanfa'r Plant yn y pwna a Chymanfa Ganu, dan arweiniad John Eifion Jones, yn yr hwyr. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid y Sul canlynol yn Hiracl, Bangor. Bwriedir, wedi hyn i gyd, gael y plant i ddysgu adnodau, penillion a salmau ar gyfer Dysgu Noddedig er budd merch fabwysiedig o Kenya. Gobeithir cynnal noson gymdeithasol i brofi'r plant rhywbryd ym mis Mehefin. Felly, byddwch yn hael a noddwch y weithgaredd hon.

Eglwys Santes Helen: Cynhelir Awr Dawel, dydd Gwener y Grogllith o 2 tan 3 o'r gloch. Bydd gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 9 a.m. fore Sul y Pasg ac yn Neiniolen am 10.30 a.m.

Gair o Ddiolch: Dymuna Nant, Tegid a'r hogia, Arwel, Llanrug, ddiolch i gymdogion a chyfeillion ym mro'r

theatr y breuddwydion. Y mae'r stadiwm fodern, a'r noson honno dennwyd torf dros 50,000. Roedd yr hen awyrgylch yn ôl — er mai rhyfedd yw gweld y Stretford End, fel y Kop yn Lerpwl, yn llawn o seddau erbyn hyn. Roedd y tocyn, a'r bocsys lletygarwch o gwmpas y maes yn rhoi syniad o'r arian a gynhyrchir mewn gêm ddim yn bell o £1 miliwn.

O ddechrau'r gêm hoeliwyd fy sylw ar un chwaraewr — Eric Cantona. Dyma'r tro cyntaf i mi ei weld yn y cnauld. Yn bendant, gallaf ddweud dyma athrylith, a fydd yn cymryd ei le ymysg mawrion y gêm — os bydd maddeuant am ddigwyddiad Parc Selhurst. Y mae ei gyfraniad i'r tîm yn anhygoel. Mae pob symudiad bron dan ei lywodraeth. Mae'n creu lle iddo'i hun a'i dîm. Yn sicr, mae ei gyd-chwarae â Ryan Giggs yn hynod o effeithiol. Mae gweledigaeth y Ffrancwr yn anhygoel. Y mae'r pasio yn dreiddgar. Yr oedd un dymi ganddo i ryddhau Giggs yn wefreiddiol. Ef yw'r seren mae tîm ieuanc United yn edrych ato. Ac yna, mae yn sgorio goliau — ac yn ddiweddar bu ei goliau yn allweddol. Yr oedd yr ergyd a daranodd heibio Seaman — a roddodd berfformiad o radd ryngwladol — yn uchafbwynt haeddiannol i gêm gystadleuol yn llawn cyffro.

Wedi gwyllo yr Almaenwyr yn chwarae Forest y noson cynt, a gwyllo Sgorio yn rheolaidd, ydy mae pêl-droed Prydain yn ail sâl o ran techneg i'r tramorwyr. Ond credaf fod y dilynwyr pêl-droed Prydeinig yn hapusach gyda digwyddiadau cyffrous o flaen gôl. Ym Manceinion ar hyn o bryd mae hyn — fel yn Lerpwl a Newcastle — yn plesio yn arw. Ni ddaw yr elfen dechnegol nes bydd yr ieuencid yn cael hyfforddwy'r a gweledigaeth a chyfleusterau nad ydynt yn gyforion o fwd.

'W la, la Cantonal!'

Eco am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, a hefyd yn y profedigaethau eraill a ddaeth i ran y teulu yn ddiweddar.


Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon a'r Cylch 1996: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus, nos Fercher, 17 Ebrill, am 7 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned i sefydlu pwyllgor ar gyfer codi arian tuag at yr Wyl a gynhelir yn Stiwdio Barcud ym mis Tachwedd eleni. Y targed a nodwyd ar gyfer y pentref yw £250. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

Pêl-droed: Llongyfarchiadau i Mathew Phillips, Waun, ar gael ei ddewis fel aelod o'r *Liverpool Soccer School of Excellence* o dan 9 oed. Bydd yn ymarfer bob nos Fercher yn Millwood. Pob dymuniad da i ti Mathew.

Llwyddiannau: Daeth nifer o llwyddiannau i Dilwyn Green yn ddiweddar gyda'i ieir. Enillodd nifer o wobrau yn y Scottish National yn Ayr, ac yn Sioe Stonley. Enillodd chwe gwobr hefyd yn Sioe Gwynedd ym Mona. Y mae Dilwyn yn beirniadu hefyd mewn sioeau ac mae'n edrych ymlaen rŵan am Sioe Llanelwedd.

Diolch: Dymuna Myfanwy Parry, Tawelfa, ddiolch i bawb am y llu cardiau, rhoddion, galwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod ei gwaeledd diweddar. Diolch o galon i bawb.

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

- 1. Ho, daw cymysgedd od iawn i guro (5)
- 4. Ergyd y chwedl (4)
- 6. Dolur dyn yn codi o'i fwcl a'i 'sgidia newydd (5)
- 9. Cyflwr y brenin hwnnw oedd am ddangos ei siwt newydd i bawbl (7)
- 10. Elerydd a Gwyndaf i enwi dim ond dau (8)
- 11. Yn ymwneud â gwyddor anifeiliaid (8)
- 12. Amrywiaeth lliw (7)
- 15. Yn bentwr. Fel rhai o fynnyddoedd Eryri (8)
- 18. Terfysgus, yn lladrata heb ddechrau arswyddo (8)
- 20. Daw dyfnder o geg Daron (8)
- 23. Prysglwyn (8)
- 26. Corfforol (7)
- 27. Mewn metal, lan, mae'r elw (8)
- 30. Aeth arfau ar chwal, i bwrpasau pendant (8)
- 31. Yr hyn a gerfir neu a neddir (7)
- 32. Gwrach o hogan, go iawn! (5)
- 33. Yr hyn y gwna 14 i lawr helpu i'w chadw (4)
- 34. Tiroedd pori (5)

I LAWR

- 1. Rhai sy'n prancio 'radeg yma o'r flwyddyn (5)
- 2. Yma daw'r River Ogmores i'r môr - rwy'n ffond iawn o'r lle! (8)
- 3. Cyfarfodydd (8)
- 4. Cludo o Cairo (5)
- 5. Mwynhau, yn enwedig wrth y bwrdd bwyd (4,4,2)
- 6. Mantol (7)
- 7. Un sy'n cysylltu (7)
- 8. Dyn o Barcelona (5)
- 13. Wythfed ran o filltir (4)
- 14. Yr hyn sy'n cynorthwyo'r canw i gadw 33 ar draws (10)
- 16. Person cyntaf lluosog rhagenw personol blaen! (3)
- 17. Cwrs (4)
- 19. Yr esgyrn sy'n amgylchynu'r ddwyfron (3)
- 21. Plant (8)
- 22. Gweithred sy'n achos colli hunan-barch (8)
- 24. Rhywbeth arall a all helpu'r canwr i gadw 33 ar draws (7)
- 25. Gwaelodion (7)
- 26. Person mympwyol ac iddo gragen galed (5)
- 28. Pwrpas (5)
- 29. Pethau sy'n llosgi (5)

CROESAIR MIS MAWRTH

Dim ond wyth o atebion cywir i groesair mis Mawrth a ddaeth i law mewn pryd. Llongyfarchiadau i E.E. Jones, Rhoshirwaun; Mary Davies, Waunfawr; Elfed Evans, Llanllechid; Mabel Parry, Porthmadog; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; Jean Hughes-Jones, Rhiw ac E.W. Pritchard, Garndolbenmaen ar eu camp.

Gofynnais i chwi ddewis gair gwahanol ar gyfer 13 i lawr, gair pum llythyren yn dechrau â 'c' ac yn cynnwys y llythyren 'y' yn bedwerydd, ac yna creu cliw cryptig iddo.. Mae cywydd, cemyw, cybydd, cosyn a celyn yn ffitio'r patrwm, ond nid olwyn, sef ymgais un o'r wyth! Derbyniais y cliw, ond nid yr ateb iddo gan un arall: 'Pysgotwr ceidwadol - ond heb ei liw'. (Crëyr. (glas) 'dwi'n meddwl ydi'r ateb - os felly mae'n un da iawn).

Dilys o'r Ynys wedyn, yn creu cliw i cemyw mewn barddoniaeth - weithith o ddim y mis yma! Symylrwydd 'Dyma Fesur cariad' sef cliw Jean Hughes-Jones, Lllys

Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli i'r gair cywydd sy'n mynd â gwobr y mis. Da iawn.

Yr un math o dasg ychwanegol a osodir y mis yma. Ar ôl datrys y croesair, dewiswch air newydd ar gyfer 4 ar draws, yn dechrau hefo'r llythyren gyntaf i ateb 4 i lawr ac yn gorffen hefo'r llythyren gyntaf i 5 i lawr, ac yna ffurfiwch gliw cryptig iddo. Gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Ebrill 24ain.



Dyddiador y Mis

MIS EBRILL

- 4. **Dydd Iau Cablyd: DEINIOLEN** Oedfa Gymunedol Undebol yn Ebeneser am 7 o'r gloch o dan ofal Y Parch John Pritchard.
- 5. **Gwener y Groglith: DEINIOLEN.** Awr dawel rhwng 2.00 a 3.00 yn Eglwys Llandinorwig.
- PENISARWAUN.** Awr dawel rhwng 2.00 a 3.00 yn yr Eglwys.
- LLANBERIS.** Oedfa Gymunedol yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.
- 7. **Sul y Pasg: DEINIOLEN.** Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10.30 a 5 o'r gloch. Pregethir gan y Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon.
- Eglwys Llandinorwig.** Cymundeb am 10.30 o'r gloch.
- LLANBERIS.** Cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn am 8 o'r gloch gyda Chôr Godre'r Garth.
- 9. **Mercher: DINORWIG:** Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan am 7 o'r gloch.
- 15. **Llun: DEINIOLEN: MYW.** Sgwrs gan Mair Jones, Y Felinheli.
- 16. **Mawrth: LLANRUG: MYW.** Sgwrs gan Mrs C. Watkin am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd.
- 17. **Mercher: BETHEL: MYW.** Noson o Frethyn Cartref.
- PENISARWAUN:** Cyfarfod Cyhoeddus i sefydlu pwyllgor ynglŷn â Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon.
- 18. **Iau: BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chworiydd am 7 o'r gloch. Sgwrs gan y Parch H. Gwynfa Roberts.
- 19. **Gwener: BETHEL:** Yr Ysgol Feithrin. Ocsiwn am 7.30 yn y Neuadd Goffa, gyda Hywel Gwynfryn yn Ocsiwniar.
- LLANRUG: MYW.** Twmpath Dawns yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon.
- 21. **Sul: PENISARWAUN:** Cymansa'r Annibynnwyr yng Nghapel Bosra am 2 a 6.
- 22. **Llun: WAUNFAWR:** Plaid Cymru. Cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30.
- 25. **Iau: DINORWIG:** Cyfarfod i gloi tymor y Gymdeithas Lenyddol am 7.30. Cwmni Drama Llanberis yn perfformio dwy ddrama fer.
- 27. **Sadwrn: DINORWIG:** Bore Coffi yn y Ganolfan o 10.30 hyd 12 o'r gloch.

RHODDION

£10: Nant a Tegid Roberts, Arwel, Llanrug; Er cof am John Rees Jones, 'Llecyn Clyd', 3 Blaen y Ddôl, Llanberis, gan ei deulu; Er cof am Mrs Annie Roberts, Fron Olau, 16 Glynafon Terrace, Deiniolen.

£5: Mr a Mrs Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, Waunfawr; Mr a Mrs John Pritchard, 32 Rhydfadog, Deiniolen;

Teulu y diweddar William Williams, 75 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Betty Peris Jones, 19 Hafan Elan, Llanrug.

£4: Mr a Mrs Selyf Hughes, Tandderwen, Llanberis.

£3: Michael a Shan Pollard, 102 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni; Mrs L. Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug.

£2: Selina Morris, Gardda Bach, Nant Peris.

ALOE VERA



Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA.** Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- **Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.** am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, penblwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant —
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

CHWARAEON

SAIB TAN Y DATBLYGIAD NESAF



Gwilym a Robert John — beth nesaf tybed?

Ar y pedwerydd o Fawrth, eleni, cafwyd agoriad swyddogol cwrt pob tywydd Waunfawr. Talwyd am yr adnodd gan Gyngor Arfon, ac o dan y llyfaleuadau cafwyd cystadlaethau 5-bob-ochr pêl-droed a phêl-rwyd gan ysgolion cynradd Llanrug, Waunfawr, Bontnewydd a Rhosgadfan.

Y mae'r datblygiad yma yn enghraifft dda o ddymuniad, egni a phenderfyniad cymdeithas leol. Y mae esiampl Waunfawr fel ardal yn gloddiw iawn. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg yn hwyluso cefnogaeth awdurdodau ac asiantaethau lleol.

Y mae'r stori yn dechrau yn 1980 pan drefnodd Eurig Wyn gyfarfod cyhoeddus i drafod sefydlu canolfan gymdeithasol yn y pentref. Yn amlwg, rhaid oedd codi arian. Yn 1981 cafwyd taith nodedig o Waunfawr i Lundain. 'Sêr' y daith oedd lori 50 oed, a bws deulawr Humphrey Roberts. Ar gyflymdra rhyfeddol o 20 milltir yr awr, a chefnogaeth y pwyllgor merched (beth wnaem ni hebddyn nhw?) llwyddwyd i godi £1,000. Yna pedlo'r beic ar faes Caernarfon am 24 awr! Yna, rhaid oedd chwilio am grantiau. Cafwyd 50% o'r Swyddfa Gymreig, 25% o'r Cyngor Sir, a'r 25% wedi ei godi gan bwyllgor y ganolfan. Roedd cost y ganolfan y pryd hynny yn £60,000. Erbyn heddiw mae'n werth £180,000. Yr oedd dau 'workaholic' yn arwain y crwsâd. Bu Gwilym Williams yn edrych ar y ganolfan fel 'ail gartref' gan iddo dreulio oriau yn gweithio ar y neuadd newydd neu'n goruchwyllo eraill. Roedd Edgar Owen yntau yn cadw llygad barud ar holl agweddau ariannol y fenter. Rhaid nodi hefyd fo llaser o'r gwaith adeiladu yn waith gwirfoddol. Agorwyd Canolfan Waunfawr yn swyddogol yn 1985.

Thema'r erthygl hon yw cyddyhead a chydweithio. Yn amlwg mae trigolion Waunfawr wedi ymateb i'r galw. Yn aml heddiw, gwelir rhai yn gwario yn helaeth ar gyfleuster ac yna yn 'gobeithio' y bydd defnydd ohoni.

Dyma restr o'r mudiadau sy'n defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd — Ysgol Feithrin, Yr Urdd, Clwb Bowlio, Clwb y Mamau, Sefydliad y

Merched, Eisteddfod y Waun, Ysgol Gynradd, Ras Antur Waunfawr, Clwb Ieuencid, Y Gymdeithas Lenyddol, Merched y Wawr, Cyngor Cymuned, Clwb Aerobics a'r Clwb Yoga. Ydi pobol y Waun adref o gwbl deudwch! Gyda llaw, bydd nifer o grwpiau pop lleol yn ymarfer yn y Ganolfan hefyd.

Yn 1986 — wel roeddynt wedi cael blwyddyn o orffwys — ffurfiwyd Clwb Chwaraeon Waunfawr. Y bwriad edd codi adeilad newydd ar gyfer snwcer. Wedi cyfarfod â Chyngor Chwaraeon Cymru penderfynwyd ategu cwrt sboncen. Eto bu'r codwyr arian profiadol wrthi gyda'r ras hwyaid flynyddol a'r nifer o yrfaoedd chwist yn denu cefnogaeth. Yn anffodus, ni ddenwyd grantiau allanol. Ond nid oes methiant yn y Waun! Ailwampwyd y cynlluniau am yr adeilad newydd. Daeth £20,000 o Gronfa Foundation for Sports, a £30,000 o'r Swyddfa Gymreig (trwy law Cyngor Gwynedd). Eto bu'r gwirfoddolwyr wrthi, a gobeithir agor yr adeilad newydd ddechrau'r haf. Bydd snwcer a storfa ar y llawr isaf, a stafell hir ar gyfer bowlio a gweithgareddau eraill ar y llawr cyntaf. Rhwng yr adeiladau a'r cwrt pob tywydd newydd mae'r cae pêl-droed, lle mae timau'r pentref yn chwarae. Mae fy ngholofnau yn aml yn canmol datblygiad chwaraeon yn yr ardal. Y mae pentref Waunfawr yn esiampl penicamp o hynny.

BLE MAE'R BÊL?

Mae rhyw dderyn — neu 'birdie' bach — wedi dweud wrthyf fod yna ddau o golffwyr yr ardal gyda rhyw swagr yn perthyn iddynt yn ddiweddar. Y rheswm am hynny yw fod y ddau wedi cyflawni uchelgais pob golffiwr sef cael 'twll mewn un'. Mae'r ddau, Ian Pierce o Lanrug ac Alan Jones o Lanberis, yn aelodau o Glwb Sant Deiniol, Bangor, ac ar y cwrs 'hynod anodd' hwnnw y cyflawnwyd y gamp.

Ian oedd y cyntaf i gyflawni'r gamp yn ystod cystadleuaeth 'Electric'. Ar y degfed twll, 196 llath,

YSTWYTHO I'R BRIG

Mae gymnasteg yn brysur ennill ei blwy ymysg campau poblogaidd yr ardal. Y mae'r gamp ystwyth yma yn apelio at fechgyn a merched fel ei gilydd. Yn wir, rhaid rhyfeddu wrth wyllo ystwythder plant ifanc iawn. I'r genhedlaeth hyn roedd campau 'degol' Nadia Commeci?, Nellie Kim a phencampwyr cyhyrog yr Undeb Sofietaidd yn ysgytwol. Yr oedd yr elfen artistig eu perfformiadau yn ymestyn ffiniau y gamp. Erbyn hyn mae clybiau llwyddiannus ym Mangor a Chaernarfon ac mae hyfforddwy profiadol wrth law i feithrin y gamp. Yn fy nyddiau i yn yr ysgol rhywbeth yn hel llwch oedd offer gymnasteg, matiau i'r gôlgeidwad mewn gêm 5-bob-ochr — neu hyd yn oed y gôl — oedd y matiau gymnasteg. Ac yna'r trampit! Teclyn i neidio arno gan geisio malu'r springs! Y mae carfan o ieuencid ym mro'r Eco wedi derbyn cryn ganmoliaeth am eu perfformiadau ym mhencampwriaethau Ysgolion Gwynedd.

Yng Nghaergybi y cynhaliwyd y gystadleuaeth i'r ysgolion uwchradd. Fe rennir y cystadleuwyr i gategoriâu 'profiadol' a 'canol-radd'. Daeth llwyddiant i dri o gymnastwyr Brynrefail. Yn y dosbarth profiadol cipiodd Catherine Pike, o flwyddyn 8, y fedar arian. Roedd y perfformiad cloddiw yma yn ennill lle iddi yn nhim Ysgolion Gwynedd ar gyfer cystadlaethau Ysgolion Cymru. Yn y categori canol-radd daeth safleodd cyntaf i ddau o flwyddyn 7, sef Gemma Cheng ac Owain Siôn Williams.

Cymerodd pump o enethod o flynyddoedd 5 a 6 Ysgol Bethel ran yn y gystadleuaeth i ysgolion cynradd, yn y Coleg Normal. Y tim a fu'n cystadlu ar y safon ganol-radd dan 11 oedd Gemma Whittaker, Sarah Margaret Hughes, Manon Davies, Cadi Ostler, ac Angharad Sturrock. Wedi cystadlu brwd a safonol, dyfarnwyd y drydedd safle i'r tim.



Catherine, Gemma ac Owain, y tri ystwyth o Frynrefail.

TIPYN O HOCI

Y mae'r tyfiant madarchaidd o'r meysydd pob tywydd wedi bod yn gaffaeliad mawr i ddilynwyr hoci. Eisoes gwelwyd gêmiau rhyngwladol ym Methesda a Phenygroes.

Yr wythnos ddiwethaf denwyd twrnameint hoci — 18 Ysgolion Cymru i feysydd Brynrefail a Bethesda. Yn cynrychioli yr wyth 'hen' sir bydd pencampwyr ysgolion pob sir. Yn anffodus ail oedd tim Ysgol Brynrefail yng ngystadleuaeth Gwynedd. Coleg Meirion-Dwyfor oedd cynrychiolwyr Gwynedd. Cafwyd hoci o safon gan enethod Powys, Dyfed, De Morgannwg a Gwent, a oedd yn chwarae ym Mrynrefail.

Yn Aberconwy yn ddiweddar cynhaliwyd twrnameint hoci i enethod — 14. Cafwyd perfformiadau safonol gan dim yr ysgol, ond roedd y gwendid o flaen y gôl yn gostus. Collwyd yn erbyn Bodedern a Phyllheli, a chafwyd gêmiau cyfartal gyda John Bright, Llandudno, ac Ysgol y Creuddyn.

Gyda llaw, gyda'r holl gyfleusterau safonol, beth yw'r gobaith o ddatblygu hoci dynion?



Y tim llwyddiannus o Ysgol Gynradd Bethel.

y daeth yr ergyd anfarwol. Mae Ian yn chwarae golff ers blynyddoedd ac erbyn hyn yn chwarae i raddnod (handicap) o 14.

Y diwrnod canlynol, yn ystod cystadleuaeth Greengrass?, llwyddodd Alan ar y pedwerydd twll. Y mae'r twll hwn yn 225 o lathenni.

Mae Alan hefyd yn golffiwr profiadol ac yn chwarae i raddnod o 7.

MWY O CHWARAEON
— gweler Tudalen 18